Estyn


Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Gwella ieithoedd tramor modern yn ysgolion uwchradd Cymru

## Cyngor ac arweiniad ar arfer dda i ysgolion ac awdurdodau lleol




Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod
The Corporate Standard
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

GORFFENNAF 2009

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **2** |
| **Argymhellion** | **5** |
| **Safonau mewn ysgolion** | **7** |
| Canlyniadau arholiadau ac asesiadau | 7 |
| Amrywiadau mewn ymgeisiadau TGAU ledled Cymru | 12 |
| Safonau cyflawniad | 13 |
| Agweddau ar safonau da | 14 |
| Diffygion cyffredin mewn safonau | 19 |
| **Ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad a niferoedd disgyblion** | **21** |
| Ansawdd yr addysgu | 21 |
| Agweddau disgyblion a rhieni | 26 |
| Hyrwyddo ieithoedd tramor modern | 27 |
| Trefniadau'r cwricwlwm | 28 |
| Cydweithredu rhwng adrannau | 32 |
| Cysylltiadau gydag ysgolion cynradd | 33 |
| Datblygiad proffesiynol parhaus | 34 |
| Cyflenwad athrawon | 37 |
| **Atodiad 1: Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw** | |
| **Atodiad 2: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg** | |

## Cyflwyniad

1 Lluniwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghylch gwaith blynyddol Estyn gan y Gweinidog yn 2008-2009.

2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Ieithoedd sy'n Cyfrif*, sef y strategaeth genedlaethol ar gyfer hyrwyddo ieithoedd tramor modern yng Nghymru, ym mis Ebrill 2002. Ysgrifennwyd y strategaeth yn erbyn cefndir o ostyngiad parhaus yn y niferoedd sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. Darparodd y strategaeth agenda ar gyfer dysgu ieithoedd tramor modern, y gweithredwyd arni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gyda phartneriaid ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd dilynol.

3 I gefnogi'r strategaeth hon, cyhoeddodd Estyn *Anelu at Ragoriaeth mewn Ieithoedd Tramor Modern* yn yr un flwyddyn. Roedd y ddogfen hon yn cynnwys cyngor ymarferol i ysgolion uwchradd ar wella ansawdd yr addysgu, y dysgu a'r ddarpariaeth. Yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith, 2006*, ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i adnewyddu *Ieithoedd sy'n Cyfrif* yn sgil datblygiadau newydd, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig, prosiect peilot ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2, a Llwybrau Dysgu 14-19.

4 I ategu at ddiwygio *Ieithoedd sy'n Cyfrif*, mae'r adroddiad hwn yn diweddaru cyngor ac arweiniad Estyn ar arfer dda ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ystyried tystiolaeth o arolygiadau diweddar a gofynion newydd y cwricwlwm.

5 Fel rhan o'r arolwg hwn, anfonodd Estyn holiadur at fwy na 50 o ysgolion uwchradd, y dewiswyd bron pob un ohonynt am eu niferoedd uchel yng nghyfnod allweddol 4 neu am fod ganddynt lawer o arferion da. Cafwyd atebion gan oddeutu dau draean o'r ysgolion hyn a dadansoddwyd eu hymatebion. Ymwelodd AEM â 14 o'r ysgolion hyn i arsylwi gwersi ac i siarad ag athrawon a disgyblion. Anfonodd Estyn holiadur at y 22 awdurdod lleol yng Nghymru hefyd i ofyn am y modd y maent yn cefnogi ieithoedd tramor modern. Cafwyd ymatebion gan bob un ohonynt a dadansoddwyd yr ymatebion hyn. Anfonwyd holiadur arall i'r pedwar sefydliad sy'n cynnig hyfforddiant cychwynnol i athrawon yng Nghymru ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern. Anfonodd pob un o'r sefydliadau hyn ymateb.

## Prif ganfyddiadau

6 Bu cynnydd cyson yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn ieithoedd tramor modern ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod cyfradd y cynnydd wedi bod yn gyflymach nag mewn pynciau eraill nad ydynt yn bynciau craidd, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig hon yn parhau'n sylweddol is nag mewn pynciau eraill, heblaw Cymraeg ail iaith. Mae'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn fwy nag yn y rhan fwyaf o bynciau eraill.

7 Mae disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 yn cael canlyniadau da. Cyfran y graddau A*-C mewn TGAU oedd 76% yn 2007, o gymharu â 67% ym 1999. Roedd hyn yn well nag ym mhob pwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, heblaw gwyddorau ar wahân a cherdd. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, disgynnodd cyfran y bobl ifanc 15 oed a oedd yn sefyll o leiaf un TGAU mewn ieithoedd tramor modern bob blwyddyn, o 41% i 28%. Mae tua dau o bob tri o'r ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau mewn ieithoedd tramor modern yn ferched.

8 Mae canlyniadau Safon Uwch yn dda hefyd. Mae cyfran yr ymgeiswyr sy'n ennill graddau A-C wedi gwella'n gyson er 2001 i 78% yn 2007, sef 3% yn uwch na'r sgôr cyfartalog A-C ar gyfer yr holl bynciau gyda'i gilydd. Bu gostyngiad bach yn nifer y rhai sy'n sefyll yr arholiadau, ond nid yw mor amlwg â'r gostyngiad mewn TGAU. Yn 2007, roedd canran y bobl ifanc 17 oed a oedd yn sefyll arholiad mewn o leiaf un iaith dramor fodern yn 10.7%, o gymharu ag 11.7% yn 2001. Mae tua thri chwarter o'r rhai sy'n sefyll arholiadau mewn ieithoedd tramor modern yn ferched.

9 Mae safonau cyflawniad, ar sail arolygiadau Adran 28, yn gyffredinol dda mewn ieithoedd tramor modern, ac yn debyg i'r hyn ydynt mewn pynciau eraill. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, roedd y safonau'n uwch o lawer na'r safonau cyfartalog mewn arolygiadau Adran 28. Lle mae'r safonau'n rhagorol, mae'r disgyblion yn dangos gallu i ganolbwyntio, brwdfrydedd, hyder a pharodrwydd i gymryd rhan ac i roi cynnig arni, hyd yn oed pan fo'r gwaith yn anodd. Nid ydynt yn poeni am wneud camgymeriadau, ac maent yn mwynhau defnyddio iaith. Hefyd, mae ganddynt strategaethau da ar gyfer dysgu iaith a dealltwriaeth drylwyr o ramadeg. Caiff yr agweddau hyn eu haddysgu a'u hannog yn benodol gan athrawon.

10 Mae ansawdd addysgu yn ffactor pwysig iawn o ran datblygu safonau da ac annog disgyblion i barhau i astudio iaith dramor fodern. Yn y gwersi yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, nodweddwyd addysgu rhagorol gan gynllunio a pharatoi gofalus, gydag amcanion clir a heriol yn cael eu cyflawni trwy ystod eang o weithgareddau heriol. Mae'r athrawon mwyaf medrus yn galluogi disgyblion i symud o ailadrodd syml, a mewnoli geirfa a strwythurau, at ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn greadigol. Mae athrawon da hefyd yn sicrhau bod dysgu iaith yn hwyl, yn defnyddio technoleg gwybodaeth yn gynyddol, ac yn mabwysiadu strategaethau addysgu gweithredol sy'n apelio at fechgyn.

11 Heblaw addysgu da, fel arfer mae gan adrannau sydd â niferoedd uchel yng nghyfnod allweddol 4 strategaethau i hyrwyddo astudiaeth bellach o ieithoedd. Mae gan rai ysgolion bolisi ar gyfer annog disgyblion i astudio ieithoedd tramor modern, ond nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion bolisi ar gyfer hyrwyddo ieithoedd yn fwy nag unrhyw bwnc arall.

12 Mae llawer o'r ysgolion llwyddiannus a gyfrannodd at yr arolwg hwn yn darparu o leiaf dwy awr yr wythnos ar gyfer iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 3, tra bo adrannau sy'n darparu llai na hyn yn ei chael yn anodd helpu disgyblion i wneud cynnydd da. Mae llawer o'r ysgolion llwyddiannus hefyd yn cynnig ail iaith dramor, yn aml i'r ieithwyr mwy galluog yn unig. Weithiau, mae ysgolion sy'n cynnig ail iaith dramor i'r holl ddisgyblion yn gweld bod hyn yn rhwystro cynnydd llawer ohonynt.

13 Mae systemau dewisiadau ysgolion yn cael dylanwad cryf ar ddewisiadau disgyblion ar gyfer cyfnod allweddol 4. Gall ehangu dewisiadau trwy Lwybrau Dysgu 14-19 ddarparu cyfle i ehangu astudiaethau iaith, ond gall hyn hefyd leihau nifer gyfartalog y dysgwyr sy'n astudio pob dewis. Ychydig iawn o gyfleoedd sydd i ddysgu ieithoedd tramor mewn cyrsiau galwedigaethol, hyd yn oed yn y rhai y mae ieithoedd yn berthnasol iddynt, fel cyrsiau sy'n ymwneud â thwristiaeth. Mae rhai ysgolion yn darparu profiadau iaith da yn y modiwl 20 awr sy'n rhan o graidd statudol Bagloriaeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn achub ar y cyfle hwn i ymestyn medrau disgyblion na datblygu eu gwybodaeth am ieithoedd tramor modern.

14 Mae adrannau ieithoedd tramor modern da yn trefnu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau dramor, er bod rhai adrannau wedi rhoi'r gorau i drefnu'r rhain am resymau amrywiol.

15 Nid oes digon o gydweithredu rhwng adrannau Cymraeg, Saesneg a ieithoedd tramor modern mewn ysgolion o hyd. Ceir nifer o fanteision pan fydd yr adrannau hyn yn cydweithio â'i gilydd.

16 Mae dysgu ieithoedd tramor mewn ysgolion cynradd, fel arfer fel rhan o brosiect peilot Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion a'u cyflawniad mewn ysgolion uwchradd.

17 Mae cefnogaeth awdurdodau lleol ar gyfer ieithoedd tramor modern yn amrywio. Nid yw hanner ohonynt yn medru darparu cyngor arbenigol yn rheolaidd, tra mai ychydig iawn yn unig o'r gweddill sy'n gallu monitro gwaith adrannau. Pum awdurdod yn unig sydd â thargedau neu amcanion sy'n ymwneud â chynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. Mae argaeledd datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon ieithoedd tramor modern hefyd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn medru dewis o nifer fach o gyrsiau. Mae nifer fach o'r awdurdodau'n darparu rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus. Mae CILT Cymru, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol, yn darparu rhaglen helaeth o gyrsiau hyfforddi, ond ni all yr holl athrawon gael eu rhyddhau na chael cyllid i fynychu'r rhain. Mae ysgolion yn cael cymorth a chyngor da iawn gan arbenigwyr pwnc os ydynt yn cymryd rhan yng nghynllun Cytundeb CILT Cymru, a luniwyd i wella arferion mewn ysgolion. Ar y cyfan, fodd bynnag, nid oes digon o adrannau ieithoedd tramor modern yn cael ymweliadau ymgynghorol rheolaidd gan arbenigwyr pwnc.

18 Mae nifer gyffredinol yr ymgeiswyr ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn ieithoedd tramor modern yng Nghymru wedi aros yn weddol gyson yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ond mae darparwyr wedi gweld amrywiadau yn nifer y ceisiadau ac wedi cael trafferth cyrraedd eu cwotâu recriwtio. Mae nifer yr athrawon dan hyfforddiant sy'n cael eu haddysgu yn y Deyrnas Unedig wedi lleihau, ond bu cynnydd yn nifer yr athrawon dan hyfforddiant sy'n dod o wledydd tramor. Heb hynny, byddai'n anoddach fyth i ddarparwyr hyfforddi digon o athrawon i fodloni anghenion staffio ysgolion yn y dyfodol.

## Argymhellion

19 Er mwyn gwella safonau a nifer y dysgwyr ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4:

**dylai ysgolion uwchradd:**

A1 ddarparu dwy awr yr wythnos o ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 3;

A2 cefnogi'r gwaith o ddatblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd partner a chytuno ar dermau ieithyddol cyffredin ar draws sectorau cynradd ac uwchradd;

A3 sicrhau bod elfen iaith Bagloriaeth Cymru yn brofiad gwerth chweil i ddysgwyr ac yn darparu dilyniant, lle bo hynny'n bosibl;

A4 datblygu arferion cyffredin rhwng yr adrannau Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern er mwyn gwella dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau iaith;

A5 arfarnu'r adran ieithoedd tramor modern yn erbyn y safonau, addysgu a darpariaeth da sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn;

A6 trefnu cyfleoedd i athrawon ieithoedd tramor modern arsylwi arfer dda a mynychu cyrsiau hyfforddi; a

A7 hyrwyddo ieithoedd tramor modern yn well ymhlith rhieni a disgyblion, trwy:

- sicrhau bod disgyblion yn cael cyngor da am yrfaoedd y mae ieithoedd tramor modern yn ddefnyddiol ynddynt;
- pwysleisio bod canlyniadau TGAU mewn ieithoedd tramor modern yn dda;
- rhoi cyfle i ieithwyr galluog astudio ail iaith dramor yng nghyfnod allweddol 3; ac
- annog ieithwyr galluog i elwa ar fwy o gyfleoedd i astudio ieithoedd ychwanegol ar ôl cyfnod allweddol 3, ar y cyd â darparwyr eraill.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A8 drefnu ymweliadau rheolaidd i arbenigwr arsylwi gwaith adrannau ieithoedd tramor modern; a

A9 rhoi mwy o her i adrannau ieithoedd tramor modern wella safonau a nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern, ac i efelychu'r arfer dda sy'n cael ei disgrifio yn yr adroddiad hwn.

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A10 weithio gyda chyrff dyfarnu er mwyn sicrhau bod elfennau ieithoedd tramor modern yn cael eu cynnwys mewn cyrsiau galwedigaethol, lle bo hynny'n briodol;

A11 parhau i annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd;


A12 hyrwyddo cysylltiadau ysgolion â gwledydd tramor ymhellach a rhoi cyhoeddusrwydd i wobrau fel Gwobr Ysgol Ryngwladol y Cyngor Prydeinig; a

A13 pharhau i hwyluso gwaith CILT Cymru i gefnogi ieithoedd tramor modern.

# Safonau mewn ysgolion

## Canlyniadau arholiadau ac asesiadau

20 Yng nghyfnod allweddol 3, 61.6% oedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 5) neu'n uwch yn asesiadau'r athrawon mewn ieithoedd tramor modern yn 2008.




*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru*

21 Mae'r cynnydd graddol mewn cyrhaeddiad yn ystod yr wyth mlynedd diwethaf wedi bod yn fwy nag mewn unrhyw bwnc arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol nad yw'n bwnc craidd, ac yn sylweddol fwy nag mewn mwy na hanner ohonynt. Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn ystyried ieithoedd tramor modern yn anodd.

22 Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch yn parhau'n sylweddol is nag ym mhob pwnc arall, ac eithrio Cymraeg ail iaith. Dangosir hyn yn y tabl canlynol.

**Gwelliant yn asesiadau athrawon cyfnod allweddol 3, 2001-2008**

| | 2001 | 2008 | gwelliant yn ôl pwynt % rhwng 2001 a 2008 |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 63.2 | 69.5 | 6.3 |
| Cymraeg | 70.5 | 72.3 | 1.8 |
| Mathemateg | 64.6 | 72.5 | 7.8 |
| Gwyddoniaeth | 63.3 | 73.7 | 10.4 |
| Celf | 67.9 | 75.3 | 7.4 |
| Dylunio a thechnoleg | 66.2 | 75.1 | 8.9 |
| Daearyddiaeth | 63.3 | 71.9 | 8.6 |
| Hanes | 63.6 | 71.8 | 8.2 |
| Technoleg gwybodaeth | 62.2 | 76.4 | 14.2 |
| **Ieithoedd tramor modern** | **44.2** | **61.6** | **17.4** |
| Cerdd | 58.4 | 71.5 | 13.1 |
| Addysg gorfforol | 60.9 | 72.0 | 11.1 |
| Cymraeg 2[il] iaith | 40.2 | 54.1 | 13.9 |

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru* SDR 132/2008


23 Nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched. Mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn 17.4 pwynt canran, sydd yn fwy nag yn y rhan fwyaf o'r pynciau eraill.

**Perfformiad yn asesiadau athrawon cyfnod allweddol 3 yn ôl rhyw, 2008**

| | Bechgyn | Merched | gwahaniaeth yn ôl pwynt % rhwng bechgyn a merched |
|---|---|---|---|
| Saesneg | 61.9 | 77.3 | 15.4 |
| Cymraeg | 64.4 | 79.6 | 15.2 |
| Mathemateg | 70.9 | 74.1 | 3.2 |
| Gwyddoniaeth | 71.6 | 75.9 | 4.3 |
| Celf | 66.3 | 84.6 | 18.3 |
| Dylunio a thechnoleg | 68.0 | 82.4 | 14.4 |
| Daearyddiaeth | 66.9 | 77.1 | 10.2 |
| Hanes | 65.7 | 78.1 | 12.4 |
| Technoleg gwybodaeth | 71.4 | 81.6 | 10.2 |
| **Ieithoedd tramor modern** | **53.0** | **70.4** | **17.4** |
| Cerdd | 63.8 | 79.3 | 15.5 |
| Addysg gorfforol | 72.1 | 71.8 | -0.3 |
| Cymraeg 2[il] iaith | 44.3 | 64.3 | 20.0 |


*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru* SDR 132/2008

24 Mae disgyblion yn fwy tebygol o ddewis ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4 os ydynt yn gwneud yn dda yng nghyfnod allweddol 3. Wedi iddynt ddewis iaith dramor fodern ar lefel arholiad, maent yn dueddol o wneud yn dda. Mae canlyniadau TGAU yn dda, ac maent wedi gwella'n gyson yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Roedd cyfran yr ymgeiswyr TGAU a enillodd raddau A*-C yn 76% yn 2009, o gymharu â 67% ym 1999, ac yn well nag ym mhob un o bynciau eraill y cwricwlwm cenedlaethol, heblaw gwyddorau ar wahân a cherdd.





*Ffynhonnell: Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007*

25 Gallai'r perfformiad da hwn adlewyrchu'r ffaith bod dosbarthiadau iaith yng nghyfnod allweddol 4, mewn llawer o ysgolion, yn cynnwys cyfran gynyddol uwch o ddisgyblion mwy galluog wrth i'r niferoedd cyffredinol leihau a'r disgyblion llai galluog ddewis pynciau eraill. Disgynnodd cyfran y bobl ifanc 15 oed a safodd o leiaf un TGAU mewn ieithoedd tramor modern bob blwyddyn rhwng 1999 a 2007, o 41% i 28%. Nid yw'r ffigurau ar gyfer 2008 wedi'u cadarnhau hyd yn hyn, ond mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bu gostyngiad pellach. Mae mwy o ferched yn sefyll TGAU mewn ieithoedd tramor modern na bechgyn, ac mae tri o bob pump o'r ymgeiswyr sy'n sefyll TGAU yn ferched.





*Ffynhonnell: Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007*

26 Ffrangeg yw'r iaith dramor fodern y mae mwyafrif y disgyblion yn sefyll arholiad TGAU ynddi o hyd, er y bu cynnydd cymharol mewn ieithoedd eraill. Yn 2007, roedd Ffrangeg yn cyfrif am 68% o'r holl ymgeisiadau mewn ieithoedd tramor modern, o gymharu â 73% ym 1999. Almaeneg yw'r iaith fwyaf poblogaidd ond un o hyd, gyda 17% o ymgeisiadau yn 2007, ond bu gostyngiad graddol er 1999 pan oedd yn cyfrif am 21% o'r ymgeisiadau. Mae Sbaeneg, ar y llaw arall, wedi cynyddu o 5% o geisiadau mewn ieithoedd tramor modern ym 1999 i 12% yn 2007. Mae ymgeisiadau mewn ieithoedd eraill yn gymharol anarwyddocaol ac mae gan bob un ohonynt lai nag 1% o'r holl ymgeisiadau mewn ieithoedd tramor modern.





*Ffynhonnell: Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007*

27 Mae canlyniadau Safon Uwch yn dda hefyd, ac yn gyfwerth â'r rhan fwyaf o bynciau prif ffrwd. Cyfran y disgyblion a safodd arholiadau Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern a enillodd raddau A-C yn 2007 oedd 78%, o gymharu â 70% yn 2001. Roedd hyn 3% yn uwch na'r sgôr A-C cyfartalog ar gyfer yr holl bynciau gyda'i gilydd.




*Ffynhonnell: Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007*

28 Yma hefyd, fodd bynnag, bu gostyngiad yn nifer yr ymgeisiadau, er nad yw mor amlwg â mewn TGAU. Yn 2007, roedd 10.7% o bobl ifanc 17 oed yn sefyll arholiad mewn o leiaf un iaith fodern dramor, o gymharu ag 11.7% yn 2001. Mae'r gwahaniaeth rhwng nifer y bechgyn a'r merched a ymgeisiodd yn fwy na mewn TGAU. Yn 2007, roedd 74% o'r disgyblion a safodd arholiad Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern yn ferched, o gymharu â 61% mewn TGAU.




*Ffynhonnell: Ieithoedd Tramor Modern mewn Ysgolion yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007*

29 Mae poblogrwydd gwahanol ieithoedd tramor mewn Safon Uwch yn adlewyrchu ymgeisiadau TGAU. Yn 2007, roedd mwyafrif yr ymgeisiadau ar gyfer ieithoedd mewn Ffrangeg, sef 63%, wedi'i dilyn gan Almaeneg, sef 21% a Sbaeneg, sef 12%. Mae canran yr ymgeisiadau wedi gostwng mewn Ffrangeg ac Almaeneg, ond wedi cynyddu rhywfaint mewn Sbaeneg. Dim ond 0.5% o'r holl ddisgyblion 17 oed a roddodd gynnig ar arholiadau Safon Uwch mewn ieithoedd eraill heblaw Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg, er bod y ganran hon wedi cynyddu rhywfaint yn ystod y degawd diwethaf.

## Amrywiadau mewn ymgeisiadau TGAU ledled Cymru

30 Mae amrywiad sylweddol ar draws gwahanol rannau o Gymru o ran cyflawniad a'r niferoedd sy'n dewis ieithoedd yng nghyfnod allweddol 4. Yn 2007, roedd dros 30% o ddisgyblion yn sefyll arholiad mewn o leiaf un iaith dramor fodern mewn saith yn unig o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y ganran uchaf yn Sir Fynwy, sef 37%, ac yng Nghasnewydd, sef 35%. Mewn cyferbyniad, roedd gan dri awdurdod lai nag 20%, a'r lleiaf oedd 17%.

31 Mae cydberthynas gref rhwng lefel y canlyniadau TGAU a nifereodd ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau. Yn gyffredinol, mae gan yr awdurdodau hynny sydd â'r canrannau uchaf yn sefyll arholiadau y canrannau uchaf o'r garfan gyfan yn cyflawni graddau A*-C, ac i'r gwrthwyneb. Y garfan a oedd â'r ganran uchaf o raddau A*-C mewn

ieithoedd tramor modern oedd 24.9% yng Nghastell-nedd Port Talbot, a oedd â'r bedwaredd ganran uchaf o ymgeiswyr hefyd. Y garfan a oedd â'r ganran isaf o raddau A*-C oedd 11.7%, a'r pedwar awdurdod gwannaf o ran llwyddiannau oedd y pedwar gwannaf o ran ymgeisiadau hefyd[1].

32 Ymddengys bod dau brif ffactor yn cyfrannu at yr amrywiadau hyn. Un ffactor yw anfantais. Mae cydberthynas rhwng niferoedd isel yn astudio ieithoedd tramor modern a chyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim (y mesur procsi mwyaf cyffredinol ar gyfer anfantais). Y tri awdurdod sydd â'r canrannau isaf o ddisgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU mewn ieithoedd tramor modern sydd â'r canrannau uchaf o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim hefyd. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau – mae gan rai awdurdodau sydd â chanrannau cymharol isel o brydau ysgol am ddim nifer isel o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern hefyd. Yr ail ffactor cyffredin mewn awdurdodau sydd â nifer arbennig o isel o ddisgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern yw natur wledig. Ar y cyfan, mae'r naw awdurdod isaf o ran ymgeisiadau TGAU naill ai'n wledig yn bennaf, neu mae ganddynt ganran gymharol uchel o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.

33 Fodd bynnag, yn achos ysgolion unigol, y ffactorau pwysicaf sy'n dylanwadu ar ddewisiadau disgyblion yw'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, ansawdd y ddarpariaeth a phrofiadau disgyblion. Dylanwadau pwysig eraill yw rhagdybiaeth disgyblion fod ieithoedd tramor modern yn anodd a'u bod yn symud ymlaen yn arafach nag mewn pynciau eraill. Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â phob un o'r ffactorau hyn.

## Safonau cyflawniad

### Arolygiadau Adran 28

34 Yn ystod cyfnod o dair blynedd, mae safonau cyflawniad, fel y'u barnwyd gan arolygwyr, mewn gwersi ieithoedd tramor modern wedi bod yn gyffredinol dda, ac yn debyg iawn i'r hyn ydynt mewn pynciau eraill. Mae hyn i'w weld yn y tabl isod.

*Canrannau'r gwersi ieithoedd tramor modern ym mhob gradd mewn arolygiadau Adran 28 rhwng 2005 a 2008*

| | Gradd 1 | Gradd 2 | Gradd 3 | Gradd 4/5 |
|---|---|---|---|---|
| **CA3 dros 3 blynedd** | **7** (8) | **59** (60) | **30** (28) | **4** (4) |
| **CA4 dros 3 blynedd** | **11** (11) | **63** (56) | **24** (30) | **2** (4) |
| **Chweched dosbarth dros 3 blynedd** | **17** (16) | **62** (67) | **21** (15) | **0** (1) |
| **Pob oedran dros 3 blynedd** | **9** (10) | **60** (60) | **27** (27) | **3** (3) |

Cyfanswm y gwersi: 557
Mae'r ffigurau mewn cromfachau'n dangos y canrannau ar gyfer pob pwnc (2007-2008 yn unig).

### Ymweliadau â gwersi ar gyfer yr adroddiad hwn

35 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, roedd safonau yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn radd 1 mewn 18 (44%) o'r gwersi a arolygwyd ac yn

[1] Mae mwy o fanylion am yr ystadegau y cyfeirir atynt uchod i'w gweld yng nghyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru SDR 184/2007, SDR 129/2008, SDR 132/2008 and SB 45/2008.

radd 2 mewn 16 (39%) ohonynt. Mae canran y gwersi gradd 1 yn uwch o lawer nag mewn arolygiadau Adran 28 ar y cyfan, ac yn adlewyrchu'r ffaith ei bod yn wybyddus bod gan bron pob ysgol yr ymwelwyd â hi safonau uchel a llawer o arfer addysgu dda.

### Canfyddiadau disgyblion

36 Er gwaethaf y ffaith bod arolygwyr wedi canfod bod safonau mewn gwersi ieithoedd tramor modern unigol yn gyffredinol dda, nid yw'r disgyblion eu hunain yn credu eu bod yn gwneud yn dda bob amser. Un rheswm y maent yn ei roi am beidio â dewis y pwnc ar ôl cyfnod allweddol 3 yw eu bod yn ei gael yn anodd, neu eu bod wedi cyflawni lefel is nag mewn pynciau eraill yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Hyd yn oed os ydynt yn cyflawni lefel debyg, mae disgyblion yn aml yn teimlo nad ydynt yn deall yn ddigonol yr iaith y maent yn ei hastudio. Mae'r canfyddiad hwn yn ddealladwy, gan nad yw cyfnod astudio o dair blynedd yn unig yn eu galluogi i gyrraedd lefel gystal o gymhwysedd â phynciau eraill y maent wedi bod yn eu hastudio'n flaenorol mewn ysgolion cynradd.

## Agweddau ar safonau da

37 Er mwyn codi cyflawniad, a chynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis astudiaethau pellach yng nghyfnod allweddol 4, dylai ysgolion anelu at gyflawni'r agweddau ar safonau uchel sy'n cael eu disgrifio isod. Mae'r rhain yn bresennol i raddau helaeth yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn. Maent hefyd yn bresennol mewn gwersi ac adrannau sy'n cael graddau uchel mewn arolygiadau Adran 28. Maent yn aml yn gyffredin ar draws grwpiau oedran a gallu, er bod eu graddau a chymhlethdod yr iaith yn cynyddu ymhlith disgyblion hŷn a mwy galluog. Felly, nid yw'r ffactorau'n cael eu disgrifio ar wahân ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4, ond darperir rhai nodweddion ychwanegol ar gyfer y chweched dosbarth.

38 Ymhlith y prif nodweddion mewn gwersi lle mae'r safonau'n rhagorol y mae gallu disgyblion i ganolbwyntio, eu brwdfrydedd, eu hyder a'u parodrwydd i gymryd rhan a rhoi cynnig arni, hyd yn oed pan fo'r gwaith yn anodd. Nid ydynt yn poeni am wneud camgymeriadau, ac maent yn mwynhau defnyddio iaith. Mae'r agwedd hon yn aml yn cael ei chanfod ymhlith disgyblion mwy galluog, ond nid yw'n deillio o allu uchel o reidrwydd. Uwchlaw popeth, mae'n dibynnu ar yr awyrgylch yn yr ystafell ddosbarth, anogaeth yr athrawon ac ansawdd yr addysgu. Gwelwyd yr agweddau hyn ymhlith disgyblion llai galluog, yn ogystal â'r disgyblion mwy galluog, yn y rhan fwyaf o'r gwersi a dderbyniodd raddau uchel.

### Gwrando a darllen

39 Mae medrau gwrando a darllen da yn gysylltiedig â deall cynnwys, yn enwedig os yw hyn yn heriol. Fodd bynnag, mae nodweddion rhagorol sy'n gysylltiedig â'r medrau hyn yn ymwneud â mwy na hyn. Pan fo gwrando neu ddarllen yn rhagorol, nid yw disgyblion yn unig yn deall iaith y maent wedi dod ar ei thraws o'r blaen. Maent hefyd yn defnyddio ystod o dechnegau i ganfod ystyr iaith newydd, ac yna'n mynd ymlaen i ddysgu ac amsugno rhywfaint o'r iaith y maent yn ei darllen neu'n ei chlywed, i'w mewnoli, a'i hailddefnyddio wrth siarad ac ysgrifennu.

40 Nodweddion rhagorol neu dda iawn eraill yw pan fo disgyblion:

- yn cyfateb synau i brint wrth ddechrau dysgu iaith, ac yna'n ceisio efelychu synau cywir;
- yn adnabod iaith y maent wedi dod ar ei thraws o'r blaen mewn cyd-destun newydd;
- yn gwrando neu'n darllen yn ofalus gyda gwir ddealltwriaeth, gan nodi unrhyw fanylion yn ogystal â'r hanfodion;
- yn deall iaith lafar fwyfwy cymhleth mewn ystod gynyddol o gyd-destunau;
- yn canfod ystyr geiriau newydd, er enghraifft, trwy eu cymharu â geiriau eraill neu iaith arall;
- yn defnyddio geiriaduron yn effeithiol;
- yn trin cwestiynau i ffurfio atebion; ac
- yn canfod barn pobl eraill ac yna'n cynnig eu barn eu hunain, ynghyd â rhesymau.

**Siarad**

41 Lle mae safonau'n dda iawn neu'n rhagorol, mae disgyblion:

- yn datblygu aceniad da;
- yn dechrau trin iaith o Flwyddyn 7, gan addasu'r hyn y maent yn ei glywed neu'n ei ddarllen i ffurfio iaith lafar;
- yn siarad mewn brawddegau o gyfnod cynnar iawn, er enghraifft, wrth gynnal trafodaeth fer sy'n cynnwys o leiaf dau neu dri chyfnewid;
- yn rhoi atebion estynedig i gwestiynau yn hyderus, mewn brawddegau cymhleth, gan roi rhesymau neu farn yn aml;
- yn gofyn am esboniadau;
- erbyn Blwyddyn 9, yn cynnal trafodaethau eithaf hir wedi'u seilio ar fodel, gan amrywio'r brawddegau a newid elfennau;
- wrth iddynt ddysgu mwy o'r iaith, maent yn cynnal trafodaethau penagored heb sgript, gan addasu'r iaith a chymryd y cam cyntaf yn aml;
- yn ymdopi â bylchau yn eu geirfa trwy ddod o hyd i ffordd arall o ddweud rhywbeth; ac
- yn trafod materion cyfoes.

42 Un o nodweddion allweddol safonau uwch mewn siarad yw'r gallu i lunio brawddegau neu ymadroddion hir o gyfnod cynnar, a mynegi syniadau a barn, ynghyd â rhesymau, wrth i fedrau iaith ddatblygu ymhellach. Gyda hyfforddiant, daw disgyblion yn gyfarwydd â gwneud hyn a byddant yn ymfalchïo mewn siarad yn faith. Mae enghreifftiau o wersi wedi'u darparu isod.

**Enghreifftiau o arfer dda mewn siarad**

Mewn un ysgol, yn eu seithfed gwers yn unig mewn ieithoedd tramor modern, roedd disgyblion Blwyddyn 7 mewn dosbarth gallu cymysg yn disgrifio'r bobl a oedd i'w gweld ar y sgrin mewn brawddegau llawn a chydag ystod o ansoddeiriau. Roeddent hefyd yn defnyddio negyddion yn gywir.

Mewn dosbarth gallu cymysg arall ym Mlwyddyn 7, roedd y disgyblion yn dysgu enwau lliwiau trwy ddweud 'fy hoff liw yw…' Roedd dosbarthiadau eraill yn yr un ysgol yn dysgu am wrthrychau bob dydd gan ddefnyddio ymadroddion fel 'Mae/Nid oes…yn fy nghas pensiliau' neu 'Mae'n/Nid yw'n'. Roeddent yn dysgu am leoedd mewn tref drwy ofyn sut i'w cyrraedd.

Mewn set gallu isel ym Mlwyddyn 9, roedd disgyblion yn ailadrodd ymadroddion ar gryno ddisg yn gywir. Gyda chymorth ysgrifenedig ar y sgrin, roeddent yn gallu dweud bod rhywbeth yn dda neu'n wael gan ddefnyddio ystod o ansoddeiriau, ac yna roeddent yn gallu ffurfio brawddegau gan ddefnyddio 'oherwydd'.

Mewn dosbarth arall gallu isel, roedd disgyblion yn defnyddio geiriaduron yn dda ar ddechrau'r wers i wirio ystyr geiriau y byddent yn eu clywed yn ddiweddarach.

Dangosodd dosbarth Almaeneg Blwyddyn 10 gymhwysedd llafar da iawn. Roeddent yn ymdrin â chwestiynau heriol gan yr athro yn hyderus. Roeddent bob amser yn ateb mewn brawddegau, gan ddefnyddio berfau afreolaidd yn gywir. Roeddent yn gwrando'n astud ar y cwestiynau ac yn defnyddio rhai o'r strwythurau a ddarparwyd yn y cwestiynau i'w helpu i ffurfio'r atebion, gan ddeall yr hyn y gallai fod angen iddynt ei newid, fel person y ferf.

Roedd dosbarth Blwyddyn 10 o fyfyrwyr gwan, a oedd yn anelu at lefel sylfaen TGAU, yn gallu dweud pa fath o ffilmiau yr oeddent yn eu hoffi neu nad oeddent yn eu hoffi. Roeddent yn deall trac sain am fathau o ffilmiau ac yn ateb cwestiynau sylfaenol, ac yna'n ysgrifennu brawddegau, er yn wallus, a oedd yn cyfathrebu'r wybodaeth gywir.

Pan fo disgyblion yn cyrraedd safonau uchel wrth siarad, gallant wyro oddi wrth y sgript a chreu iaith. Dangosodd un dosbarth Blwyddyn 11 lawer o hyder wrth siarad yn yr iaith darged yn fyrfyfyr heb sgript.

**Ysgrifennu**

43 Lle mae safonau'n uchel, mae disgyblion yn dechrau ysgrifennu paragraffau a llythyrau byr yn gynnar iawn wrth ddysgu'r iaith. Erbyn Blwyddyn 9, gallant ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau i ysgrifennu naratif neu ddisgrifiadau estynedig,

nid yn unig o fodelau ond gan ddefnyddio eu dychymyg hefyd gyda chynnwys gwreiddiol. Maent yn ailddrafftio ac yn mireinio gwaith ysgrifenedig (ar gyfrifiaduron ambell waith) ac yn gwybod sut i ymestyn gwaith ysgrifenedig gydag ystod o amseroedd, cysyllteiriau ac is-gymalau.

44 Gall y disgyblion gorau yng nghyfnod allweddol 4 ysgrifennu darnau llawer mwy rhugl a hwy nag sydd eu hangen i gael gradd dda mewn TGAU, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ramadeg. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o eiriau a strwythurau, ac yn gallu dod o hyd i wallau a'u cywiro.

45 Mewn sawl ysgol, mae disgyblion llai galluog yn llunio brawddegau da. Weithiau, mae angen cymorth arnynt i wneud hyn, er enghraifft trwy ddefnyddio fframiau brawddegau. Mae bechgyn yn arbennig yn cael eu hysgogi gan weithgareddau cinesthetig lle maent, er enghraifft, yn symud cardiau geiriau o gwmpas ar eu desgiau i greu brawddegau neu naratif.

46 Mae'r dyfyniad canlynol o adroddiad arolygiad Adran 28 ar ieithoedd tramor modern mewn un ysgol, sy'n cyfeirio at ddisgyblion Blwyddyn 10, yn rhoi crynodeb da o'r hyn y gellir ei gyflawni mewn ysgrifennu:

> *"Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn ysgrifennu gyda rhuglder rhyfeddol. Maent yn amrywio arddull a chwmpas eu darnau ffeithiol neu ddychmygus gan ddefnyddio ystod eang o eiriau a strwythurau addas â lefelau uchel iawn o gywirdeb. Maent yn defnyddio'r ieithoedd yn greadigol i fynegi eu bwriadau eu hunain yn glir."*

47 Mae rhai o brif nodweddion safonau uchel mewn ysgrifennu yr un fath â'r rhai ar gyfer siarad. Yn gryno, y rhai mwyaf nodedig yw pan fo disgyblion:

- yn ailgylchu neu'n addasu iaith y maent wedi'i dysgu'n flaenorol;
- yn mynegi eu barn yn fanwl, gan roi rhesymau;
- yn defnyddio berfau'n dda, o Flwyddyn 9, mewn sawl amser;
- yn rhoi cynnig ar strwythurau newydd; ac
- yn ffurfio brawddegau cynyddol gymhleth, gan ddefnyddio cysyllteiriau ac is-gymalau.

48 Fel crynodeb cyffredinol o'r hyn y gellir ei gyflawni yng nghyfnod allweddol 4, dyma ddyfyniad talfyredig o adroddiad arolygu Adran 28 un ysgol o'r llynedd:

> *"Mae disgyblion yn siarad yn faith, yn gywir ac yn llawn hyder. Maent yn dangos meistrolaeth ragorol ar ffurfiau a phatrymau ieithyddol. Maent yn barod i arbrofi â'r iaith yn greadigol. Maent yn darllen ac yn deall deunyddiau dilys estynedig mewn iaith gyfarwydd ac anghyfarwydd."*

**Datblygu strategaethau dysgu iaith**

49 Mae gorchmynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ieithoedd tramor modern, a ddiwygiwyd yn ddiweddar, yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu strategaethau dysgu iaith. Lle bo safonau'n uchel yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, y medrau mwyaf arwyddocaol yw:

- ailddefnyddio neu addasu iaith o un cyd-destun a'i defnyddio mewn un arall;
- dealltwriaeth drylwyr o ramadeg a sut mae'r iaith yn gweithio;
- gallu i weld cyfatebiaeth â ieithoedd eraill;
- defnyddio ystod o strategaethau i ddysgu a chofio iaith newydd;
- gallu i ddefnyddio geiriaduron a deunyddiau cyfeirio yn effeithiol; a
- pharodrwydd i ofyn am arweiniad.

50 Mae'r rhan fwyaf o'r medrau uchod wedi'u nodi yn rhaglenni astudio diwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer ieithoedd tramor modern. Mae'n bwysig nodi bod angen i'r rhain gael eu haddysgu a'u hannog yn aml gan athrawon. Ceir enghreifftiau defnyddiol o safonau uchel yng nghyfnod allweddol 3 yn *Ieithoedd Tramor Modern, Arweiniad ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*[2]*,* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Safonau mewn gwersi chweched dosbarth**

51 Mae'r canlynol yn rhestr o nodweddion da iawn o'r nifer fach o wersi a welwyd ac o adroddiadau arolygu Adran 28. Mae myfyrwyr:

- yn dadansoddi cynnwys ffeithiol yn fanwl;
- yn aralleirio, yn crynhoi ac yn addasu strwythurau;
- yn rhoi atebion llafar estynedig;
- yn dechrau ac yn cymryd rhan mewn trafodaeth estynedig am ystod o bynciau, gan gynnwys materion cyfoes;
- yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig cywir ac estynedig, gyda strwythurau cymhleth, iaith idiomatig ac ymadroddion llafar;
- yn trafod pwyntiau gramadegol; ac
- yn gwneud nodiadau yn y dosbarth heb anogaeth.

---

[2] www.cymru.gov.uk/educationandskills
http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/?skip=1&lang=cy

52 Mae’r dyfyniad canlynol o adroddiad arolygu Adran 28 yn darparu meincnod defnyddiol:

*“Mae’r myfyrwyr yn rhugl ac yn gallu mynegi eu barn a’u syniadau am faterion pynciol yn rhydd, gan gyfiawnhau eu safbwyntiau’n gywir gydag enghreifftiau priodol. Gallant ysgrifennu’n helaeth am ystod o themâu cyfoes mewn Ffrangeg cywir. Maent yn dangos gwybodaeth ragorol am Ffrangeg idiomatig; gallant weithredu yn yr ystod lawn o amseroedd, gan gynnwys yr amser dibynnol, a gallant drafod gwybodaeth ystadegol yn hyderus.”*

## Diffygion cyffredin mewn safonau

53 Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, ychydig iawn o ddiffygion pwysig oedd yn y safonau. Mae diffygion yn aml yn gysylltiedig ag absenoldeb, neu’r gwrthwyneb i’r, nodweddion da iawn sy’n cael eu disgrifio uchod. Mae’r rhestr isod yn deillio o leiafrif bach o wersi a welwyd yn ystod yr arolwg ac o adroddiadau o arolygiadau Adran 28.

54 Y diffygion mwyaf cyffredin yw:

**Gwrando a darllen**

- pan nad yw’r disgyblion wedi arfer â chlywed yr iaith darged ac nad ydynt yn ei deall, hyd yn oed ar lefel sylfaenol iawn;
- pan nad yw’r disgyblion yn gallu ymdopi â iaith gyfarwydd mewn cyd-destun newydd;
- pan nad yw’r disgyblion yn adnabod geiriau sylfaenol, gan gynnwys geiriau holi sylfaenol, ar lafar ac yn ysgrifenedig;
- pan fydd disgyblion yn darllen ystod gyfyng o ddeunyddiau ac nad ydynt yn eu darllen yn annibynnol;
- pan nad oes gan y disgyblion strategaethau wrth ddelio â iaith anragweladwy;

**Siarad**

- pan nad yw’r disgyblion yn trin nac yn ailgylchu iaith, a phan na allant addasu cwestiynau i lunio atebion;
- pan fydd disgyblion yn rhoi geiriau unigol fel atebion neu, ar y gorau, atebion byr iawn;
- pan nad oes gan y disgyblion hyder, menter na natur ddigymell wrth siarad;
- pan fydd gan ddisgyblion acenion gwael neu donyddiaeth wael;

**Ysgrifennu**

- pan nad yw'r disgyblion yn ysgrifennu brawddegau llawn neu ddarnau estynedig;
- pan fydd disgyblion yn ysgrifennu'n anghywir gyda llawer o wallau sylfaenol, gan gynnwys gwallau sillafu;
- pan nad yw'r disgyblion yn gweld eu holl wallau nac yn cofio rhai pwyntiau gramadeg sylfaenol;
- pan fydd disgyblion yn defnyddio ystod gul o strwythurau a geirfa (mae hyn yn berthnasol wrth siarad hefyd);

**Medrau a gweithgareddau dysgu iaith**

- pan fydd disgyblion yn gwastraffu amser ar waith ysgrifenedig di-nod fel tynnu llun a chopïo;
- pan nad ydynt yn dysgu'r iaith ar eu cof;
- pan nad ydynt yn deall nac yn cymhwyso gramadeg sylfaenol, fel rhannau'r ferf; a
- phan nad ydynt yn defnyddio geirfaoedd, geiriaduron a ffynonellau cyfeirio gramadeg.

# Ffactorau sy'n effeithio ar gyflawniad a niferoedd disgyblion

## Ansawdd yr addysgu

55 Mewn arolygiadau Adran 28, mae ansawdd yr addysgu mewn ieithoedd tramor modern yn dda yn bennaf, gyda nodweddion da a dim diffygion pwysig yn nhri chwarter y gwersi, a nodweddion rhagorol mewn un wers o bob 10. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg hwn, roedd ansawdd yr addysgu'n uwch na hyn, ac roedd nodweddion rhagorol mewn 21 (51%) o'r 41 o wersi. Roedd gan 14 o wersi eraill (34%) nodweddion da yn bennaf. Fel gyda'r graddau ar gyfer safonau, mae'r ganran uchel iawn hon o addysgu gradd 1 yn adlewyrchu'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ac yn helpu i esbonio pam y mae nifer fawr o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn parhau gydag astudiaethau iaith yng nghyfnod allweddol 4.

### Nodweddion rhagorol

56 Roedd y gwersi gorau yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr arolwg yn fywiog, yn egnïol ac yn llawn mwynhad i'r disgyblion. Roedd y berthynas rhwng athrawon a disgyblion bob amser yn gref iawn, ac roedd y disgyblion yn disgwyl i'w gwersi ieithoedd tramor modern fod yn hwyl.

57 Yn y gwersi hyn, roedd addysgu rhagorol yn cael ei nodweddu gan sawl nodwedd. Roedd y rhain yn cynnwys cynllunio a pharatoi gofalus, gydag amcanion clir a heriol a gyflawnwyd trwy ystod eang o weithgareddau ymdrechgar. Roedd athrawon yn esbonio tasgau'n ofalus ac yn drylwyr, ac yn rhoi cymorth i ddysgwyr arafach a thasgau ychwanegol i ddysgwyr mwy galluog yn ôl yr angen. Roedd yr athrawon mwyaf medrus yn galluogi disgyblion i symud o ailadrodd syml a mewnoli geirfa a strwythurau i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn greadigol, trwy gyfres o weithgareddau aml-fedr a luniwyd yn dda. Caiff nodweddion penodol gwersi rhagorol neu dda iawn eu disgrifio isod.

### Gwrando a darllen

58 Yn yr arfer orau, nid yw athrawon yn defnyddio gwrando a darllen testunau yn unig i weld faint o wybodaeth y gall disgyblion ei deall. Yn hytrach, maent yn sicrhau, fel sy'n ofynnol yn rhaglen astudio ddiwygiedig y Cwricwlwm Cenedlaethol, bod disgyblion yn ymateb i destunau ac yn defnyddio'r hyn y maent yn ei ddarllen neu'n ei glywed i ddatblygu eu hiaith gynhyrchiol eu hunain. Er mwyn gwneud hynny, maent yn gofyn cwestiynau sy'n mynnu atebion estynedig a barnau, yn hytrach na defnyddio'r ymarferion a ddarperir mewn llawer o lyfrau cwrs yn unig. Yn aml, nid yw'r rhain yn gwneud llawer mwy na phrofi dealltwriaeth, er bod hynny ar lefel uwch o bryd i'w gilydd.

59 Mae'r athrawon yn paratoi disgyblion i fynd i'r afael â darnau cymhleth yn effeithiol trwy ymarfer iaith y byddant yn dod ar ei thraws yn hwyrach ar lafar, a chefnogi hyn yn ysgrifenedig ar y bwrdd neu ar y sgrin. Yn yr un modd, weithiau mae'r athrawon yn gosod tasgau geiriadur i ddod o hyd i eiriau a fydd yn cael eu defnyddio'n hwyrach yn y wers.

60 Wrth ddefnyddio testunau gwrando anodd, mae'r athrawon yn caniatáu i ddisgyblion weld y trawsgrifiad o bryd i'w gilydd, fel y gallant ddeall yn well a dysgu sut i gysylltu'r synau â'r iaith ysgrifenedig.

61 Mewn ymarferion gwrando, mae'r athrawon yn sensitif i'r hyn y mae'r dosbarth yn ei ddeall, ac yn rhannu'r testun yn ddarnau hawdd eu trin. Maent yn defnyddio'r swyddogaeth 'saib' ar eu chwaraewr cyfryngau, fel nad oes rhaid i'r disgyblion ymdopi â gormod o wybodaeth ar unwaith ac fel bod ganddynt amser i ysgrifennu atebion neu wneud nodiadau.

62 Wrth farcio ymarferion gwrando a darllen, mae'r athrawon yn mynd dros y testun neu'r symbyliad gwreiddiol, neu'n cyfeirio ato, fel y gall y disgyblion ddeall yr ystyr a gweld sut mae'r atebion yn cael eu ffurfio. Weithiau, mae'r athrawon yn chwarae neu'n darllen testunau fesul tipyn. Maent yn rhoi neu'n gofyn am esboniadau ar gyfer yr ateb cywir, yn hytrach na rhoi'r ateb i'r disgyblion yn unig. Fel hyn, mae'r disgyblion yn dysgu rhywfaint o'r iaith y maent yn dod ar ei thraws. Wrth farcio ymateb i dasg wrando, mae'r athrawon yn darparu'r trawsgrifiad o bryd i'w gilydd. Mae hyn yn ffordd dda o helpu disgyblion i ddeall, dysgu a chofio'r hyn y maent wedi'i glywed.

**Datblygu siarad ac ysgrifennu**

63 Mae athrawon da yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu brawddegau o ddechrau Blwyddyn 7. Maent yn cyflwyno geirfa newydd trwy ofyn i ddisgyblion ailadrodd geiriau newydd mewn un neu fwy o ymadroddion neu frawddegau gosod. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddefnyddio'r geiriau mewn cyd-destun a hefyd i ddatblygu iaith estynedig. Mae'r athrawon hefyd yn mynnu brawddegau llawn ac ynganiad cywir wrth i ddisgyblion ateb cwestiynau. Maent yn esbonio ac yn atgoffa disgyblion yn rheolaidd am sut i droi cwestiwn yn ateb trwy ailddefnyddio neu addasu rhywfaint o'r iaith yn y cwestiwn.

64 Mewn un ysgol, mae'r athrawon yn datblygu iaith estynedig disgyblion trwy eu hatgoffa'n rheolaidd i ddefnyddio'r acronym PROFL (*Past, Reason, Opinion, Future, Links*). O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 8, mae'r disgyblion wedi dod i'r arfer â gwella brawddegau syml trwy ychwanegu cymalau pellach.

65 Mae technegau dysgu gweithredol yn dod yn fwyfwy cyffredin ac yn apelio at fechgyn yn benodol. Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn dysgu sut i ffurfio brawddegau hir trwy symud cardiau sydd â geiriau ac ymadroddion wedi'u hargraffu arnynt. Mae hon yn dechneg ddefnyddiol iawn gyda disgyblion llai galluog. Mewn un dosbarth llai galluog yng nghyfnod allweddol 3, darparodd yr athro 'beiriannau' cardiau er mwyn helpu disgyblion i greu brawddegau.

66 Mae athrawon da hefyd yn addysgu disgyblion i ysgrifennu'n gywir. Mewn un dosbarth yng nghyfnod allweddol 3, gosododd yr athro weithgaredd heriol i'r disgyblion ddod o hyd i 25 o wallau mewn testun ysgrifenedig mewn parau.

**Apelio at fechgyn**

67 Mae lleiafrif o ysgolion llwyddiannus wedi mynd ati'n benodol i gynyddu nifer y bechgyn sy'n dewis ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. Mae rhai

wedi cynnwys hyn yn eu polisi ysgol gyfan. Mewn rhai adrannau ieithoedd tramor modern, mae'r athrawon wedi cymryd rhan mewn gweithgorau neu wedi mynychu cyrsiau allanol yn ymwneud â chyflawniad bechgyn.

68 Mewn ysgolion eraill, er nad yw'r mater yn destun polisi'r ysgol, mae adrannau ieithoedd tramor modern wedi datblygu llawer o strategaethau sy'n apelio at fechgyn yn eu barn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygu gweithgareddau ymarferol, cydweithredol a chinetig;
- ymestyn y defnydd o TGCh;
- defnyddio cystadlaethau a gemau'n rheolaidd;
- cynnwys mwy o eirfaoedd neu bynciau sy'n apelio at fechgyn yn y cynllun gwaith, fel chwaraeon;
- cyfeirio cwestiynau at fechgyn a mynnu'n benodol eu bod yn cymryd rhan;
- cynyddu'r ffocws ar siarad a lleihau ysgrifennu yn y dosbarth;
- cael trefniadau eistedd sy'n helpu sicrhau bod bechgyn yn cyfranogi'n llawn; a
- defnyddio mapiau meddwl a diagramau pry cop, gan fod y rhain yn cyfateb yn dda i'r strategaethau meddwl y mae rhai bechgyn yn eu defnyddio.

69 Mae nifer fach o ysgolion yn priodoli'r nifer uchel o fechgyn yng nghyfnod allweddol 4 i'r ffaith bod sawl athro (gwrywaidd) yn yr adran ieithoedd tramor modern, ond ychydig iawn o ysgolion sydd yn y sefyllfa hon. Yn yr holl ysgolion a ymatebodd i'r arolwg hwn, roedd 11 athro a 54 athrawes.

**Gramadeg**

70 Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel am ddealltwriaeth disgyblion o ramadeg. Maent yn esbonio neu'n diwygio gwahanol strwythurau yn dda, fel arfer yn iaith gyntaf y disgyblion. Er enghraifft, maent yn helpu disgyblion i ddefnyddio strwythurau fel 'je voudrais' trwy esbonio os yw'n cael ei ddilyn gan ferf, yna rhaid i'r ferf honno fod yn ferfenw. Gallant ddangos y tebygrwydd i'w hiaith gyntaf er mwyn helpu disgyblion i ddeall strwythurau, er enghraifft, trwy dynnu sylw at achosion pan fo strwythurau cyfatebol yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddwyn yn yr un modd.

71 Yr yr un modd, efallai y byddant yn rhoi cyfieithiad llythrennol yn y iaith gyntaf. Er enghraifft, gallant gyfieithu'r ymadrodd Almaeneg 'es geht mir gut' fel 'mae'n mynd yn dda i mi', yr ymadrodd Sbaeneg 'me gusta el fútbol' fel 'mae pêl-droed yn bleser i mi' neu'r ymadrodd Ffrangeg 'j'ai l'intention de' fel 'mae gen i'r bwriad'. Trwy wneud hyn, maent yn helpu disgyblion i ddeall ystyr yr elfennau a sut y caiff y strwythurau eu defnyddio.

72 Er mwyn helpu disgyblion i gofio geirfa newydd, mae athrawon yn tynnu sylw at eiriau cytras yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac at eiriau cysylltiedig hysbys yn yr iaith

dramor. Nid yw athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn osgoi cyfeirio at eiriau cytras Saesneg i helpu disgyblion i gofio geiriau. Yn yr un modd, mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ymwybodol o ba eiriau cytras Cymraeg y mae'r disgyblion yn debygol o wybod amdanynt. Maent hefyd yn helpu disgyblion i ddeall a chofio geiriau newydd trwy sicrhau eu bod yn eu gweld mewn print yn ogystal â'u clywed.

73 Ar ôl esbonio strwythurau newydd a phwyntiau gramadegol, mae athrawon yn eu hymarfer yn drylwyr yn yr iaith darged mewn ystod o gyd-destunau.

**Gweithgareddau a gemau**

74 Yn ddieithriad, mae'r gwersi gorau yn fywiog ac fel arfer yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys symudiadau, neu weithgareddau cinetig wrth y ddesg, fel pan fo disgyblion:

- yn cael trafodaethau 'ffôn' ar draws yr ystafell ddosbarth;
- yn trefnu cardiau ar y ddesg i greu brawddegau;
- yn siarad gyda chymaint o'u cyfoedion â phosibl mewn cyfnod byr o amser er mwyn cwblhau arolwg; ac
- yn dod o hyd i eiriau ar gardiau sydd wedi'u cuddio o gwmpas yr ystafell er mwyn cwblhau ymarfer llenwi bylchau.

75 Mae disgyblion yn mwynhau gemau cystadleuol a chystadlaethau. Mae gemau a strategaethau llwyddiannus yn cynnwys:

- terfynau amser sy'n rhoi cyflymdra;
- rhoi teilyngdodau a gwobrau;
- defnyddio byrddau gwyn bach personol ar gyfer gemau geiriau;
- gemau geiriau rhwng timau gan ddefnyddio 'gêm OXO' ar y bwrdd neu'r sgrin;
- defnyddio swadiwr pryfed i fod y cyntaf i ddod o hyd i eitemau ar y bwrdd;
- gemau fel 'pasio'r parsel';
- sibrydion;
- gemau dileu; a
- chystadlaethau rhwng yr athro a'r dosbarth, rhwng disgyblion unigol neu rhwng timau.

76 Mewn un dosbarth, roedd rhaid i 'blismyn' yn gwisgo helmedi ddod o hyd i 'bobl a ddrwgdybiwyd' yn yr ystafell trwy ddilyn cliwiau llafar a roddwyd gan y dosbarth.

**Asesu**

77 Mae nodweddion rhagorol eraill mewn adrannau iaith yn ymwneud ag asesu. Yn yr adrannau neu'r gwersi gorau, roedd yr athrawon yn helpu disgyblion i ddeall eu cynnydd eu hunain trwy:

- rannu meini prawf asesu gyda'r disgyblion;
- rhoi adborth a sylwadau â ffocws da yn yr iaith darged;
- gofyn i ddisgyblion gywiro camgymeriadau fel mater o drefn;
- annog disgyblion i asesu eu cynnydd eu hunain; a
- gwneud iddynt bennu eu targedau eu hunain er mwyn gwneud cynnydd pellach.

**Arddangosiadau ac adnoddau**

78 Mae nodweddion da yma yn cynnwys:

- arddangosiadau sy'n atgoffa disgyblion o strwythurau allweddol, gramadeg, geiriau holi a thebygrwydd â ieithoedd eraill;
- llyfrynnau gyda deunyddiau ar gyfer pob pwnc, gan gynnwys geirfaoedd allweddol a gramadeg, sy'n rhoi cofnod parhaol i'r disgyblion o'r gwaith a wnaed;
- llyfrynnau llythrennedd triphlyg sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd rhwng ieithoedd;
- taflenni sy'n atal yr angen am gopïo yn y dosbarth;
- deunyddiau ychwanegol i roi mwy o gymorth neu her, fel fframiau ysgrifennu neu fersiynau ychwanegol o destun; a
- byrddau gwyn bach i alluogi disgyblion i ddangos eu hateb i gwestiwn i'r athro heb boeni am eu cyfoedion yn eu gweld yn cael yr ateb yn anghywir.

**Technoleg gwybodaeth**

79 Erbyn hyn, mae defnydd da o dechnoleg gwybodaeth gan athrawon yn gyffredin. Mae athrawon yn aml yn defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol, neu gyfrifiadur sy'n gysylltiedig â thaflunydd, i:

- gyflwyno amcanion y wers;
- cyflwyno esboniadau o ramadeg neu iaith newydd;
- darparu codau lliw i helpu gyda chenedl neu ansoddeiriau;
- cyflwyno ymarferion, gan roi'r atebion yn hwyrach;

- dangos lluniau, cartwnau a chymhorthion gweledol eraill; a
- dangos rhannau o raglenni teledu neu ffilmiau dramor.

80 Mewn un wers, fe wnaeth yr athro herio'r disgyblion i lunio brawddegau gan ddefnyddio geiriau a gynhyrchwyd ar hap gan gyfrifiadur.

81 At ei gilydd, mae'r defnydd o TGCh gan ddisgyblion mewn gwersi iaith yn gyfyng. Mewn rhai ysgolion, nid yw adrannau'n medru cael defnydd digon rheolaidd o ystafelloedd TG. Mae rhai adrannau'n dangos nad oes angen i ddisgyblion ddefnyddio TGCh i gyflawni safonau da. Fodd bynnag, os caiff ei defnyddio'n dda, gall TGCh gyfrannu'n sylweddol at ddysgu iaith, a gall fod yn ysgogol iawn.

82 Mewn rhai ysgolion lle caiff TGCh ei defnyddio'n dda, mae disgyblion yn defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd i ddarllen blogiau neu i gynnal cysylltiadau ag ysgolion a dosbarthiadau dramor drwy negeseuon e-bost. Mae dulliau eraill da o ddefnyddio cyfrifiaduron yn cynnwys:

- gemau sy'n gofyn i ddisgyblion deall a defnyddio iaith;
- rhaglenni ac ymarferion dysgu iaith, fel llenwi bylchau neu drin testun;
- prosesu geiriau i ddrafftio ac ailddrafftio; a
- chwilio am wybodaeth ar y rhyngrwyd.

## Agweddau disgyblion a rhieni

83 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae agweddau disgyblion tuag at ieithoedd tramor modern yn gadarnhaol yng nghyfnod allweddol 3, yn enwedig ym Mlwyddyn 7, yn gynnar ym Mlwyddyn 8 ac mewn setiau uwch. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn dweud bod disgyblion yn dechrau colli diddordeb wrth i'r pwnc fynd yn fwy anodd yn hwyrach ym Mlwyddyn 8 ac yn enwedig ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn arbennig o wir mewn setiau is, er bod disgyblion llai galluogi mewn lleiafrif o ysgolion yr arolwg yn aml yn dewis ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae bechgyn o allu is na'r canolig yn llai tebygol o fod ag agwedd gadarnhaol na merched o'r un grŵp gallu.

84 Fel gyda phynciau eraill, mae disgyblion yn dueddol o golli diddordeb ym Mlwyddyn 9 os ydynt wedi penderfynu rhoi'r gorau i astudio'r pwnc yng nghyfnod allweddol 4. Yn gyffredinol, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn frwdfrydig am y pwnc.

85 Mae ysgolion yn adrodd bod rhieni'n gefnogol yn gyffredinol. Mae gan leiafrif ohonynt agweddau negyddol sy'n dylanwadu ar eu plant, yn enwedig os cawsant brofiad gwael eu hunain o ddysgu iaith yn yr ysgol. Mae ysgolion a'r adrannau ieithoedd tramor modern gorau yn esbonio gwerth a nodau astudio ieithoedd tramor modern, er enghraifft, mewn nosweithiau rhieni. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt, os o gwbl, sy'n darparu gwersi mewn ieithoedd tramor modern i rieni, i gysylltu â'r pynciau y mae eu plant yn eu hastudio yn yr ysgol efallai, neu'n darparu dosbarthiadau nos ar y cyd â'r coleg addysg bellach lleol.

## Hyrwyddo ieithoedd tramor modern

86 Mae adrannau llwyddiannus yn aml yn cael budd o agwedd ysgol sy'n hyrwyddo astudio ieithoedd tramor modern. Maent yn dweud bod cefnogaeth gan uwch reolwyr yn arbennig o bwysig. Mae gan rai ysgolion bolisi ac ymrwymiad ysgol gyfan tuag at hyrwyddo ieithoedd tramor modern, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn dibynnu ar yr adrannau. Maent yn defnyddio gwahanol strategaethau, fel nosweithiau agored a ffeiriau gyrfaoedd. Mae sawl adran yn gwneud defnydd da o gynyrchiadau DVD hyrwyddo ieithoedd gan CILT Cymru (gweler yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Mae'r rhain yn cynnwys sgyrsiau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 am yrfaoedd sy'n defnyddio ieithoedd tramor modern, gyda'r bwriad o helpu i gynyddu'r niferoedd yng nghyfnod allweddol 4. Mae un adran wedi paratoi cyflwyniad PowerPoint ar werth ieithoedd yn hwyrach mewn bywyd.

87 Rhoddodd ysgolion a ymatebodd i holiadur Estyn wybodaeth am sawl strategaeth arall ar gyfer hyrwyddo ieithoedd tramor modern. Mae'r rhai mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- ystod o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau â gwledydd tramor (gweler yn ddiweddarach);
- cyllid ar gyfer cynorthwywyr ieithoedd tramor sy'n dod â diwylliant y wlad dramor i'r ysgol;
- hysbysfwrdd ar goridor yr adran sy'n cynnwys hysbysebion ar gyfer swyddi sy'n gofyn am ieithoedd tramor modern;
- Wythnos Ieithoedd sy'n cynnwys yr ysgol gyfan;
- tasgau iaith, cwisiau diwylliannol a sesiynau blasu i gyd-fynd â Diwrnod Ieithoedd Ewrop, a
- holiadur i rieni a disgyblion am eu canfyddiadau o astudio ieithoedd tramor modern.

88 Mae llwyddiant mewn arholiadau yn bwysig iawn. Lle gall yr adran ddangos y bydd disgyblion yn gwneud cystal, neu'n well, mewn ieithoedd tramor modern nag mewn pynciau eraill, mae disgyblion yn fwy tebygol o ddewis astudio iaith yng nghyfnod allweddol 4.

89 Mewn lleiafrif bach o ysgolion, mae ymgynghorydd neu athro gyrfaoedd yn ymwybodol iawn o werth astudio ieithoedd tramor modern ac yn hyrwyddo ieithoedd tramor modern fel cymhwyster gwerthfawr. Mewn un ysgol, mae'r llyfryn dewisiadau cyfnod allweddol 4 yn rhestru gyrfaoedd sy'n defnyddio ieithoedd tramor modern. Mae gan ysgol arall stondin CILT Cymru yn ffair gyrfaoedd Blwyddyn 9. Mewn rhai ysgolion, mae gwersi gyrfaoedd yn trafod gwerth pob pwnc ysgol, ac mae un adran yrfaoedd wedi paratoi posteri i helpu pob adran i hyrwyddo ei phwnc. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw digon o ysgolion neu adrannau yn gwybod nac yn gwirio pa negeseuon y mae disgyblion yn eu cael mewn gwersi gyrfaoedd am astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4.

## Trefniadau'r cwricwlwm

90 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru yn darparu rhwng 100 a 120 munud yr wythnos o ieithoedd tramor modern i'r rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Fel arfer, mae hyn ar ffurf dwy wers yr wythnos sy'n para 50 munud neu awr.

91 Mae'r adrannau sy'n darparu 100 munud yr wythnos yn unig yn dweud nad yw hynny'n ddigon o amser i wneud cynnydd da. Mae'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r ysgolion arfer dda a oedd yn rhan o'r arolwg hwn yn darparu o leiaf 120 munud yr wythnos yn ategu'r farn hon, er bod nifer fach o adrannau'n gwneud yn dda gyda llai o amser.

92 Er bod rhai ysgolion yn gosod disgyblion mewn setiau yn ôl eu gallu ym Mlwyddyn 8 neu 9, mae dosbarthiadau cyfnod allweddol 3 yn aml yn cynnwys disgyblion o allu cymysg. Weithiau, mae hyn yn achosi problemau o ran herio'r disgyblion mwy galluog yn ogystal â bodloni anghenion y rhai llai galluog, ac mewn rhai adrannau, mae'n arafu cynnydd yr holl ddisgyblion. Mae prinder athrawon hefyd yn atal llawer o ysgolion rhag darparu mwy nag un dosbarth, neu grwpio disgyblion yn ôl eu gallu, yng nghyfnod allweddol 4. O ganlyniad, mae adrannau iaith yn aml yn gorfod ymdopi ag ystod eang o alluoedd mewn un dosbarth ar yr un pryd wrth i ddisgyblion ddysgu iaith fwy cymhleth. Mae'n ddigon tebyg bod hyn yn anghymhelliad i rai adrannau gynyddu nifer y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Gallai cynyddu'r cydweithrediad rhwng darparwyr helpu i ddarparu grwpiau ychwanegol.

93 Mae un neu ddwy ysgol yn awgrymu bod nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern wedi gostwng ers i Gymraeg ail iaith ddod yn bwnc gorfodol. Mae un adran ieithoedd tramor modern, mewn ardal Saesneg yn bennaf, yn adrodd bod cwrs TGAU llawn gorfodol mewn Cymraeg wedi cael effaith negyddol fawr, gan fod disgyblion yn aml yn ystyried y Gymraeg fel iaith dramor ac maent o'r farn bod un iaith yn ddigon. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r rhan fwyaf o'r adrannau ieithoedd tramor modern o'r farn bod Cymraeg gorfodol yng nghyfnod allweddol 4 yn cael effaith negyddol gref ar nifer y disgyblion.

### Cynlluniau dewisiadau ysgolion

94 Mae strwythur y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4, a'r system ddewisiadau, yn cael effaith sylweddol ar nifer y disgyblion sy'n dewis pob pwnc dewisol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gall disgyblion ddewis pedwar pwnc yn unig yng nghyfnod allweddol 4, ac mewn ychydig iawn ohonynt, gallant ddewis ond tri phwnc.

95 Mae gan rai ysgolion bolisi i gynghori'r holl ddisgyblion i ddewis cydbwysedd da o bynciau. Fel rhan o'r cyngor hwn, mae lleiafrif bach o'r ysgolion yn disgwyl i'r holl ddisgyblion astudio o leiaf un iaith dramor fodern, heblaw'r disgyblion lleiaf galluog. Er enghraifft, dywed llyfryn dewisiadau un ysgol: "Caiff disgyblion eu hannog i ddilyn cwricwlwm eang a chytbwys o hyd, gan y bydd hyn yn eu paratoi ar gyfer yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael wedi iddynt gyrraedd 16 oed. Disgwylir y bydd mwyafrif y disgyblion yn parhau i astudio pwnc yn y dyniaethau, technoleg, ieithoedd tramor modern a'r celfyddydau creadigol".

96 Lle caiff blociau o ddewisiadau eu pennu ymlaen llaw, mae'r ysgol i ryw raddau yn arwain dewisiadau'r disgyblion. Mewn system felly, gallai ieithoedd tramor modern gael eu cynnwys yn yr un bloc o ddewisiadau ag un neu fwy o bynciau poblogaidd eraill. Mae hyn yn cyfyngu ar y niferoedd ar gyfer yr holl bynciau hyn. Mae rhai o'r ysgolion hyn yn helpu i annog y niferoedd sy'n dewis ieithoedd tramor modern trwy gynnwys ieithoedd mewn mwy nag un bloc o ddewisiadau. Mae un ysgol yn atal y rhan fwyaf o'r disgyblion rhag dewis mwy nag un pwnc galwedigaethol, gyda'r bwriad o gynnal pynciau mwy 'traddodiadol'.

97 Fodd bynnag, yn gynyddol, mae'r holl bynciau yn cael eu trin yn gyfartal mewn llawer o ysgolion ac mae'n rhaid iddynt gystadlu am ddisgyblion gan fod gofynion Llwybrau Dysgu 14-19 yn arwain at gyfres o brofiadau cyffredin y mae'r holl ddysgwyr yn eu dilyn (y 'Craidd Dysgu'), ynghyd â dewisiadau a luniwyd i fodloni anghenion a dyheadau unigol. Mae hyn yn aml yn arwain at ddewis rhydd heb gyfres gyfyng o flociau o ddewisiadau. Mae nifer gynyddol o ysgolion eisoes yn rhoi dewis rhydd o bynciau i'r disgyblion y tu allan i'r craidd gorfodol, ac yna'n creu blociau o ddewisiadau sy'n bodloni dewisiadau disgyblion cystal ag sy'n bosibl.

98 Dywed rhai ysgolion nad yw argaeledd mwy o bynciau galwedigaethol yn effeithio ar y niferoedd sy'n dewis ieithoedd tramor modern, yn gyffredinol. Mewn llawer o achosion, y rheswm am hyn yw bod pynciau galwedigaethol yn cael eu hystyried yn bynciau ar gyfer disgyblion o allu canolig neu is yn unig, mewn llawer o ysgol, tra bod ieithoedd tramor modern yn cael eu ystyried yn bynciau ar gyfer disgyblion mwy galluog. Wrth i Lwybrau Dysgu 14-19 ddatblygu ymhellach, mae'r cyntaf o'r canfyddiadau hyn yn newid, tra bod angen newid yr ail o hyd.

99 Mae Llwybrau Dysgu 14-19 yn cynyddu nifer y dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 yn sylweddol. Mae rhai ysgolion eisoes yn darparu 30 o bynciau, ac yn y dyfodol, bydd rhaid i bob ysgol wneud hynny. Mae argaeledd cynyddol o bynciau galwedigaethol a phynciau 'newydd' eraill, yr oedd ychydig iawn o ysgolion yn gallu eu cynnig yn y gorffennol, wedi cynyddu'r dewis i bawb. Gan fod disgyblion fel arfer yn dewis pedwar o'r rhain, mae'n debygol o effeithio ar y niferoedd ym mhob pwnc 'traddodiadol', a gallai gyfrannu at ostyngiad pellach yn nifer y disgyblion sy'n dewis ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. Mae nifer o'r adrannau ieithoedd tramor modern sydd wedi ymateb i'r arolwg yn mynegi pryder bod y nifer gynyddol o ddewisiadau eisoes yn achosi gostyngiad pellach yng nghyfnod allweddol 4.

100 Ar y llaw arall, gall ymestyn Llwybrau Dysgu ddarparu cyfleoedd ar gyfer ieithoedd tramor modern hefyd. Dylai'r dewis ehangach o bynciau trwy drefniadau consortiwm alluogi disgyblion i astudio ieithoedd newydd na allant eu hastudio yn eu hysgolion eu hunain, neu i ddewis cyrsiau iaith y mae'n bosibl na fyddant wedi gallu eu dewis fel arall gan fod y niferoedd yn y dosbarth yn rhy fach. Mae un rhwydwaith 14-19 yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, yn darparu cyrsiau TGAU gyda'r hwyr mewn ieithoedd na all disgyblion eu hastudio yn eu hysgolion eu hunain.

101 Wrth ddewis ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4, bydd ansawdd profiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn fwyfwy arwyddocaol. Os yw'r disgyblion wedi bod yn llwyddiannus mewn ieithoedd tramor modern, neu wedi'u hargyhoeddi am eu gwerth, maent yn fwy tebygol o ddewis eu hastudio ymhellach, ond mae llawer o'r rhai sy'n rhoi'r gorau i astudio ieithoedd tramor modern yn

gwneud hynny gan eu bod yn tybio bod dewisiadau eraill yn haws neu'n fwy perthnasol. Yn yr un modd, mae adrannau sydd â record dda mewn TGAU yn fwy tebygol o annog niferoedd uchel.

**Ail iaith dramor**

102 Mae llawer o'r ysgolion llwyddiannus a gymerodd ran yn yr arolwg yn cynnig ail iaith dramor. Mae'r amser yng nghyfnod allweddol 3 yn aml yn dod o'r iaith dramor gyntaf ac o Gymraeg o bryd i'w gilydd. Mae amrywiaeth o ddarpariaeth, gan gynnwys:

- un cyfnod yr wythnos ym Mlwyddyn 8 a 9, neu ym Mlwyddyn 9 yn unig, naill ai ar gyfer yr holl ddisgyblion neu'r setiau uchaf;
- sesiynau blasu ym Mlwyddyn 9, fel bod disgyblion sy'n dewis eu hastudio ymhellach yn dechrau o'r dechrau ym Mlwyddyn 10; ac
- un wers yr wythnos o'r ail iaith dramor yn ystod tymor yr haf ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion, gyda'r disgyblion llai galluog yn cael gwersi llythrennedd ychwanegol.

103 Mae gwahanol farnau am ddarparu ail iaith dramor ar gyfer yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3. Mae un ysgol, mewn ardal lle mae disgyblion yn dysgu ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 2, yn dweud bod hyn yn datblygu medrau iaith disgyblion cystal fel y gall bob un ohonynt ddechrau ail iaith ym Mlwyddyn 8. Mae ysgol arall, fodd bynnag, yn credu bod caniatáu i'r set uchaf ym Mlwyddyn 9 astudio ail iaith yn cyfyngu ar eu cynnydd yn yr iaith dramor gyntaf, gan fod ganddynt lai o amser ar ei chyfer. O ganlyniad, maent yn y pen draw yn cyflawni canlyniadau TGAU yn yr iaith dramor gyntaf nad ydynt yn well, neu sydd hyd yn oed yn waeth, na'r ddwy set gallu is. Nid yw hon yn farn gyffredin mewn perthynas â disgyblion o allu uwch, ond byddai llawer o adrannau yn cytuno â hi mewn perthynas â disgyblion o allu canolig neu is. Y farn gyffredin yw y dylai ail iaith dramor gael ei chynnig i ieithwyr mwy galluog yn unig yng nghyfnod allweddol 3.

104 Yng nghyfnod allweddol 4, mae llai na 10% o'r disgyblion yng Nghymru yn dilyn cwrs TGAU mewn iaith dramor heblaw Ffrangeg. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn astudio un iaith dramor yn unig, ac mae canran y disgyblion sy'n astudio mwy nag un iaith dramor yn isel iawn. Wrth i Lwybrau Dysgu 14-19 ddatblygu ymhellach, dylai ysgolion annog ieithwyr galluog i achub ar fwy o gyfleoedd i astudio ail iaith yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

**Cyrsiau iaith amgen**

105 Nid yw llawer o ysgolion yn cynnig cymwysterau heblaw TGAU a Safon Uwch mewn ieithoedd tramor modern. Mae rhai ysgolion o'r farn nad yw disgrifiadau gradd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhoi digon o gymhelliant na gwobr, a hoffent weld cymhwyster ychwanegol yng nghyfnod allweddol 3 i fodloni'r disgyblion hynny sy'n colli diddordeb mewn ieithoedd ym Mlwyddyn 9. Mae lleiafrif bach yn defnyddio CBLC (Tystysgrif Cymhwysedd Iaith Busnes) neu Ieithoedd Mantais (Asset Languages) at y diben hwn, neu i gyd-fynd â chyrsiau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4, lle mae rhai hefyd yn defnyddio cyrsiau Rhwydwaith y Coleg Agored.

106 Ar y cyfan, ychydig iawn o ddysgu ieithoedd tramor modern sydd mewn cyrsiau galwedigaethol y byddai'n berthnasol i ddatblygu medrau iaith ynddynt, fel Busnes neu Hamdden/Teithio a Thwristiaeth.

107 Mae Bagloriaeth Cymru yn cynnwys modiwl iaith 20 awr fel rhan o elfen Cymru, Ewrop a'r Byd y Craidd gorfodol ar gyfer y diplomâu Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Mae hyn yn rhoi cyfle da i ysgolion annog rhywfaint o astudiaethau pellach mewn ieithoedd tramor modern. Nid edrychodd AEM ar y modiwl hwn yn benodol fel rhan o'r arolwg hwn, ond mae rhywfaint o dystiolaeth nad yw wedi symbylu fawr o ehangiad mewn dysgu ieithoedd tramor. Mae'r potensial yno i'w ddefnyddio'n well.

108 Mae'r arfer dda ar gyfer y modiwl hwn yn cynnwys:

- cwrs cychwynnol dwys sy'n para 5 diwrnod ym Mlwyddyn 12, gan ddefnyddio rhaglenni hunanastudio a luniwyd gan y BBC mewn dewis o bedair iaith Ewropeaidd;
- cwrs mewn iaith newydd ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth;
- cwrs mewn Iaith Arwyddion Prydain; a
- gwersi Ffrangeg fel rhan o daith i Ffrainc, sydd hefyd yn cwmpasu agweddau eraill ar y Craidd, fel datrys problemau a gweithgareddau menter tîm.

**Gweithgareddau allgyrsiol**

109 Mae adrannau ieithoedd tramor modern yn aml yn dangos egni rhagorol yn eu hymroddiad i alluogi eu disgyblion i gael profiad o ddiwylliannau tramor. Mae llawer ohonynt yn trefnu llawer o deithiau. Fel arfer, mae'r rhain yn deithiau undydd yng nghyfnod allweddol 3 ac yn deithiau hwy, neu'n deithiau cyfnewid o bryd i'w gilydd, yng nghyfnod allweddol 4 neu'r chweched dosbarth. Mae rhai o'r diwethaf yn cynnwys elfen o brofiad gwaith. Mae un adran, er enghraifft, yn trefnu tair neu bedair taith y flwyddyn i Ffrainc a'r Almaen ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i symbylu a chynnal diddordeb disgyblion mewn dysgu ieithoedd tramor modern, a gallant wneud cyfraniad pwysig i addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

| |
|---|
| Mae un adran egnïol yn trefnu taith Blwyddyn 8, taith gyfnewid i'r Almaen a thaith gyfnewid i Ffrainc bob blwyddyn. Maent hefyd yn trefnu diwrnod Fasching (carnifal Gŵyl y Gyffes Almaenig) ar gyfer dysgwyr Almaeneg ym Mlwyddyn 7, cystadleuaeth Spellathon ieithoedd tramor modern ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7, a diwrnod i fyfyrwyr mwy galluog a thalentog ym Mlwyddyn 9 weithio ar erthyglau ar gyfer cylchgrawn iaith. Weithiau, maent yn mynd â'r chweched dosbarth ar ddiwrnodau astudio, tra gall myfyrwyr Ffrangeg Safon Uwch wneud profiad gwaith mewn ysgolion cynradd yn Ffrainc yn ystod taith gyfnewid. |

110 Mae rhai adrannau ieithoedd tramor modern wedi rhoi'r gorau i drefnu ymweliadau tramor. Mae'r amrywiol resymau a roddwyd yn cynnwys poeni am gyfrifoldeb personol, baich asesiadau risg a cholli amser gwyliau ar gyfer athrawon.

111 Mae gweithgareddau allgyrsiol eraill sy'n cael eu trefnu gan adrannau ieithoedd tramor modern yn cynnwys:

- caffi ar noson i ddisgyblion newydd;
- cyrsiau adolygu iaith preswyl mewn prifysgolion;
- dosbarthiadau adolygu TGAU y tu allan i oriau ysgol;
- teithiau i'r theatr;
- clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol gyda chwisiau a ffilmiau;
- cystadlaethau fel 'Dod i adnabod eich CIT' (cynorthwyydd ieithoedd tramor) CILT Cymru;
- cyfraniadau i gylchgrawn yr ysgol; a
- chyfeillion gohebol, o bryd i'w gilydd trwy gysylltiadau electronig.

## Cydweithredu rhwng adrannau

112 Mae'r ymatebion i'r arolwg o ysgolion yn dangos yn gyffredinol nad oes digon o gydweithredu o hyd rhwng adrannau Saesneg, Cymraeg a ieithoedd tramor modern.

113 Rhwng 2005 a 2007, cynhaliodd CILT Cymru Brosiect Ymchwil Weithredol Llythrennedd Triphlyg gyda grŵp o ysgolion i fynd ar drywydd yr awgrymiadau yn 'Gwneud y Cysylltiad' (2003) gan ACCAC. Mae adrannau yn yr ysgolion hyn, yn ogystal ag mewn ysgolion eraill lle mae adrannau wedi gweithio gyda'i gilydd, yn dweud bod eu gwaith wedi elwa. Mae rhai gwelliannau i arfer adrannau yn cynnwys:

- rhannu cynnwys rhaglenni astudio cyfnod allweddol 3 er mwyn canfod meysydd cyffredin;
- cydweithredu ar gynlluniau gwaith fel bod adrannau'n ymwybodol o'r testunau yr ymdrinnir â nhw ar adegau gwahanol yn y pynciau gwahanol;
- mwy o ymwybyddiaeth o'r modd i helpu disgyblion ddysgu trwy gymharu geiriau cytras, strwythurau, amseroedd a rheolau trefn geiriau;
- cytundeb i ddefnyddio'r un derminoleg;
- datblygu prosiectau cyffredin ar fedrau meddwl ac ymwybyddiaeth iaith;
- arddangos termau gramadegol pwysig ym mhob dosbarth; a
- rhannu syniadau addysgu.

114 Mewn un ysgol, mae penaethiaid yr adran Gymraeg a'r adran ieithoedd tramor modern yn addysgu Saesneg i ddosbarthiadau Blwyddyn 7 gyda golwg ar chwilio am ffyrdd i hyrwyddo cysylltiadau rhwng yr ieithoedd. Mae ysgol arall wedi trefnu gwers Blwyddyn 7 o'r enw 'Iaith', lle'r addysgir Ffrangeg i'r disgyblion am hanner cyntaf y wers, a Chymraeg am ail hanner y wers, gyda'r ddau athro'n aros yn y wers gyfan. Gwneir hyn gyda golwg ar chwilio am ffyrdd i gydweithredu ymhellach yn y dyfodol.

115 Cynhaliodd un ysgol brosiect Ymwybyddiaeth Iaith a oedd yn tynnu ar brofiadau disgyblion o Gymraeg fel ail iaith er mwyn helpu'u dysgu mewn ieithoedd tramor modern. Fe wnaeth un ysgol ddwyieithog greu banc trawsadrannol o syniadau cychwyn gwersi a gwersi llawn, gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o rannau o ymadrodd a thynnu sylw at nodweddion sy'n debyg mewn cystrawen mewn Ffrangeg, Almaeneg, Cymraeg a Saesneg.

116 Cyflwynodd un ysgol Gymraeg sioe mewn tair iaith o'r enw 'Mae Iaith yn Agor Drysau', gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd ymhlith disgyblion. Perfformiwyd y sioe gan ddisgyblion Blwyddyn 7 ym mhob un o'r ysgolion cynradd yn y clwstwr, er mwyn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu iaith ymhlith disgyblion hyd yn oed cyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd.

117 Mae rhai ysgolion Cymraeg yn amharod i gyfeirio at y Saesneg mewn gwersi ieithoedd tramor modern, ond mae un adran ieithoedd tramor modern mewn ysgol Gymraeg yn mynd ati'n benodol i gymharu strwythurau gramadegol allweddol ieithoedd tramor modern gyda'r Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg lle mae hyn yn fwy defnyddiol.

118 Mae un ysgol Gymraeg, trwy holiadur i ddisgyblion, wedi canfod fod bron pob un o'r disgyblion a ymatebodd o'r farn fod bod yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg yn eu helpu i ddysgu iaith dramor fodern.

## Cysylltiadau gydag ysgolion cynradd

119 Fel rhan o'i strategaeth 'Ieithoedd sy'n Cyfrif', lansiwyd prosiect gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003 i gyflwyno ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Bwriad y prosiect oedd "datblygu profiad o sut y gall dysgu iaith ategu a chyfoethogi'r cwricwlwm statudol yng nghyfnod allweddol 2 a bod o fudd i'r disgyblion pan fyddant yn symud ymlaen at gyfnod allweddol 3". Un o'r nodau yw "arfarnu pa un a yw cynnydd a chyrhaeddiad dilynol disgyblion mewn iaith dramor fodern yn cynyddu, a monitro'r effaith ar agweddau disgyblion at iaith dramor fodern a'r niferoedd sy'n dilyn y cwrs yng nghyfnod allweddol 4" (Cylchlythyr 41/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru).

120 Mae'r prosiect yn rhoi cynnig ar fodelau gwahanol ar gyfer cyflwyno addysgu iaith dramor fodern yng nghyfnod allweddol 2, gyda'r rhan fwyaf o'r modelau'n golygu bod un ysgol uwchradd yn gweithio gyda chymaint â phosibl o'i hysgolion cynradd cysylltiedig. CILT Cymru sy'n rheoli ac yn rhoi cymorth i'r prosiect.

121 Yn yr ysgolion uwchradd hynny sy'n gysylltiedig â'r prosiect, yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'r canlyniadau yn galonogol hyd yn hyn. Mae'r gwelliannau yr adroddwyd amdanynt yn cynnwys:

- mae disgyblion Blwyddyn 7 yn fwy hyderus a'u cymhelliant yn well;
- mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyflymach, mae cyflawniad wedi gwella ac mae'r nifer sy'n cyrraedd lefelau uwch ar ddiwedd Blwyddyn 9 wedi cynyddu;
- mae'r prosiect wedi cynyddu ymwybyddiaeth o ieithoedd tramor modern yn y gymuned ac mae wedi gweithredu fel arf marchnata da; ac
- mae cysylltiadau pontio ag ysgolion cynradd wedi gwella.

122 Mae'r prosiect i weld yn cael effaith hefyd ar y niferoedd yng nghyfnod allweddol 4. Erbyn hyn mae dwy garfan o ddisgyblion o ysgolion cynradd sydd ynghlwm â'r prosiect wedi cyrraedd Blwyddyn 9 ac wedi gwneud eu dewisiadau pynciau. Mae canfyddiadau cychwynnol o arfarniad y prosiect yn awgrymu, yn gyffredinol, bod niferoedd uwch yng nghyfnod allweddol 4 gan yr ysgolion uwchradd a fu'n gysylltiedig â'r prosiect.

123 Mae llawer o'r adrannau ieithoedd modern tramor yr ymwelwyd â nhw ar gyfer yr adroddiad hwn, pa un a ydynt wedi bod ynghlwm â'r prosiect peilot cyfnod allweddol 2 ai peidio, wedi sefydlu cysylltiadau pontio da â'u hysgolion cynradd. Mae ychydig ohonynt yn darparu gwersi blasu yn yr ysgolion cynradd neu pan fydd disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol uwchradd. Mae un ysgol wedi datblygu testun pontio, tra bod disgyblion y chweched dosbarth o ysgol arall yn mynychu clwb ieithoedd ar ôl ysgol mewn ysgol gynradd.

124 Er gwaetha'r cysylltiadau da y sonnir amdanynt uchod, ychydig o ymwybyddiaeth sydd ar y cyfan mewn llawer o adrannau ieithoedd tramor modern ysgolion uwchradd o brofiadau dysgu ieithoedd disgyblion cynradd mewn Cymraeg a Saesneg. Nid ydynt fel arfer, er enghraifft, yn gwybod pa dermau gramadegol y mae disgyblion yn eu dysgu yn yr ysgol gynradd.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

125 Mae argaeledd cyrsiau hyfforddiant mewn swydd, a'r niferoedd sy'n eu mynychu, yn amrywio gryn dipyn rhwng ysgolion ac awdurdodau. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, bydd un aelod o'r adran ieithoedd tramor modern fel arfer yn mynychu un o'r cyfarfodydd blynyddol a gynhelir gan CBAC. Mae ysgolion o'r farn bod y rhain yn ddefnyddiol iawn, ond o anghenraid, maent yn canolbwyntio'n fanwl ar faterion sy'n codi o arholiadau TGAU a Safon Uwch, ac nid ar ddulliau addysgu. Mae lleiafrif o ysgolion yn anfon athrawon ar gyrsiau sy'n cael eu darparu gan gwmnïau preifat. Ni all pob ysgol fforddio'r rhain, er bod cyllid ar gael gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW). Fel arall, awdurdodau lleol yw prif ffynhonnell datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd tramor modern trwy Gronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth Cynulliad Cymru a CILT Cymru.

## Cymorth awdurdodau lleol

126 Mae awdurdodau lleol yn amrywio gryn dipyn o ran y cymorth y maent yn ei ddarparu. At ei gilydd, nifer gymharol fach o adrannau ieithoedd tramor modern yng Nghymru sy'n cael ymweliadau monitro neu gynghori rheolaidd gan arbenigwr ieithoedd tramor modern sy'n gallu darparu cyngor ar sail arsylwi yn yr ystafell ddosbarth.

127 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 11 o awdurdodau yng Nghymru yn cyflogi chwech o ymgynghorwyr arbenigol ieithoedd tramor modern rhyngddynt, a hynny trwy drefniant rhwng dau awdurdod neu fwy yn y rhan fwyaf o achosion. I'r rhan fwyaf ohonynt, mae ieithoedd tramor modern yn un o blith nifer o gyfrifoldebau eraill. Nid oes ymgynghorydd ar gyfer ieithoedd tramor modern gan yr 11 awdurdod arall, ond mae ychydig o'r rhain weithiau'n prynu gwasanaethau ymgynghorydd o awdurdod arall.

128 Hyd yn oed yn yr 11 awdurdod sy'n cyflogi arbenigwyr, mae nifer yr ymweliadau ag ysgolion ac amlder y monitro yn amrywio. Mewn pedwar awdurdod yn unig, mae ymgynghorydd yn gwneud ymweliad monitro blynyddol ffurfiol ag adran ieithoedd tramor modern pob ysgol, fel rhan o adolygiad llawn fel arfer, neu fel cyfraniad at broses hunanarfarnu'r ysgol. Mewn ychydig o awdurdodau eraill, mae hawl gan ysgolion i gael dogn benodol o amser ymgynghori, ond gall hyn fod cyn lleied â hanner diwrnod y flwyddyn. Fel arall, bydd ymgynghorydd yn ymweld ag ysgolion unigol mewn ymateb i gais penodol gan yr ysgol neu gan wasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod. Gwneir hyn fel arfer ar gyfer gwiriad cyn-arolygu neu am fod pryderon gan y gwasanaeth gwella ysgolion ynglŷn â'r ysgol. Mewn hanner o'r 22 awdurdod, nid yw ysgolion yn cael unrhyw fath o ymweliad rheolaidd gan ymgynghorydd ieithoedd tramor modern.

129 Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau felly yn mynd i'r afael yn gyson ac yn rheolaidd â gwendidau mewn adrannau ieithoedd tramor modern, er y byddant yn prynu gwasanaeth allanol ar gyfer adrannau sydd wedi derbyn graddau isel mewn arolygiad Adran 28. Er bod trefniadau da iawn gan lawer o ysgolion i adolygu adrannau unigol fel rhan o'u proses hunanarfarnu ysgol gyfan, mae diffyg argaeledd cyngor pynciol arbenigol yn cyfyngu ar arfarnu trylwyr o'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth.

130 Mae'r darlun yn well o ran cyrsiau. Prin yw nifer yr awdurdodau, neu gonsortia, sy'n darparu rhaglen helaeth, ond mae llawer ohonynt yn trefnu rhyw fath o ddatblygiad proffesiynol parhaus, weithiau trwy brynu cymorth neu brynu rhaglenni awdurdodau eraill i mewn. Nid yw chwe awdurdod wedi darparu unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y blynyddoedd diweddar, ond mae dau o'r rhain wedi dechrau darparu cymorth trwy CILT Cymru. Mae mwyafrif o awdurdodau'n trefnu rhyw ffurf ar gyfarfod rheolaidd, naill ai ar gyfer yr holl athrawon ieithoedd tramor modern neu ar gyfer penaethiaid adrannau. Mae ychydig o awdurdodau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd felly eleni, gyda chymorth CILT Cymru.

131 At ei gilydd, mae gwybodaeth awdurdodau am gyflwr ieithoedd tramor modern yn eu hysgolion yn amrywio. Mae rhywfaint o wybodaeth o leiaf gan fwyafrif ohonynt am ansawdd adrannau iaith, er bod eu gwybodaeth yn aml wedi'i seilio ar ganlyniadau arholiadau yn unig, ac ar adroddiadau Estyn ar ysgolion lle'r oedd y pynciau a

arolygwyd yn cynnwys ieithoedd. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn gallu enwebu un adran dda o leiaf ar gyfer yr arolwg hwn, er nad oedd ychydig o awdurdodau'n gallu gwneud hynny. Er bod mwyafrif yr awdurdodau yn gwybod canran gyffredinol y disgyblion yn yr awdurdod cyfan sy'n astudio ieithoedd tramor modern yn CA4, dim ond hanner ohonynt sy'n gwybod sut mae eu ffigwr yn cymharu gydag awdurdodau eraill. Dim ond gan bum awdurdod y mae targedau neu amcanion ar gyfer niferoedd sy'n cofrestru i astudio'r pwnc yng nghyfnod allweddol 4.

### CILT Cymru

132 Un o ddeilliannau 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' oedd sefydlu CILT Cymru yn 2002, sef y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ieithoedd yng Nghymru, sy'n derbyn cymorth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel un elfen o'i waith, mae CILT Cymru'n darparu rhaglen flynyddol o hyfforddiant mewn swydd arbenigol ar gyfer holl ysgolion Cymru. Mae adrannau ieithoedd tramor modern yn dweud bod y rhain o ansawdd da bob amser, a'u bod yn cyfrannu at welliannau yn eu haddysgu. Fodd bynnag, nid yw adrannau bob amser yn gallu cael eu rhyddhau neu dderbyn cyllid i fynychu.

133 Trwy ei gynllun Compact, mae CILT Cymru hefyd yn darparu cyngor a chymorth arbenigol i ysgolion. Nod hyn yw:

- codi safonau;
- gwella ansawdd addysgu;
- gwella niferoedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 4; a
- meithrin cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ac elwa o'r medrau iaith a gaffaelwyd yn y cyfnod cynradd.

134 Mae dros 60 o ysgolion uwchradd wedi cyfranogi yn y cynllun Compact ar ryw adeg. Mae'r rhai a fu'n rhan o'r arolwg hwn yn dweud bod y cymorth a ddarparwyd yn hynod ddefnyddiol, a'i fod yn cyfrannu'n sylweddol at gynnal neu wella safonau addysgu uchel.

### Cysylltiadau â sefydliadau hyfforddi athrawon

135 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yn cynnwys rhywfaint o hyfforddiant methodoleg addysgu mewn sesiynau hyfforddiant mentoriaid. Prif ffocws yr hyfforddiant, fodd bynnag, yw sut i hyfforddi ac asesu addysgu hyfforddeion. Mae llawer o fentoriaid yn gweld yr hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol, nid yn unig ar gyfer eu gwaith gyda hyfforddeion, ond hefyd o ran eu helpu i wella'u haddysgu eu hunain a'u hunanarfarnu yn yr adran.

136 Mae llawer o'r ysgolion a fu'n rhan o'r arolwg yn dweud bod eu cysylltiadau gyda sefydliadau hyfforddi athrawon yn gallu helpu gwella ansawdd eu darpariaeth, ond mae lleiafrif yn teimlo nad ydynt hwythau na'u disgyblion yn elwa digon.

## Cyflenwad athrawon

137 Yn y pedair blynedd rhwng 2005 a 2009, fe wnaeth darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru recriwtio 214 o hyfforddeion i hyfforddi i addysgu ieithoedd tramor modern. Roedd bron i hanner yr hyfforddeion hyn yn meddu ar gymwysterau mewn dwy iaith dramor fodern ar lefel gradd neu gyfwerth â hynny. Roedd ychydig dros draean yr hyfforddeion yn wladolion tramor a oedd wedi hyfforddi i addysgu eu mamiaith.

138 At ei gilydd, mae nifer yr ymgeiswyr ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ieithoedd modern tramor wedi aros yn weddol sefydlog dros bedair blynedd. Mae'r darparwyr i gyd wedi gweld amrywiadau yn y ceisiadau, fodd bynnag. Yn gyffredinol, maent wedi cael anhawster bodloni'r cwota recriwtio, a osodwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, sy'n seiliedig ar amcangyfrifon o anghenion recriwtio yn ysgolion Cymru. Mae rhesymau dros hyn yn cynnwys:

- y gostyngiad yn nifer disgyblion y chweched dosbarth sy'n astudio ieithoedd Safon Uwch ac felly'n mynd ymlaen i wneud gradd; ac
- ymgeiswyr yn methu dod o hyd i ddigon o gymorth ariannol.

139 Yn ffodus, mae nifer yr hyfforddeion sy'n wladolion tramor wedi cynyddu. Heb y cynnydd hwn, byddai'n anoddach fyth i ddarparwyr fodloni'u cwota recriwtio.

140 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr wedi datblygu strategaethau da i recriwtio hyfforddeion i hyfforddi i addysgu ieithoedd tramor modern. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys:

- sefydlu cyswllt gwefan a chydlynydd yn Ffrainc;
- diwrnodau agored;
- cyrsiau blasu; a
- chyfranogiad yng ngweithgareddau recriwtio'r Fforwm Recriwtio Hyfforddiant Athrawon.

141 Mae darparwyr yn barnu bod galluoedd ieithyddol cyffredinol hyfforddeion yn amrywio o fod yn foddhaol i fod yn eithriadol o dda mewn ychydig o achosion. Mae'r hyfforddeion hynny sy'n meddu ar fedrau iaith boddhaol yn unig yn siarad yr iaith yn rhugl yn aml, ond nid ydynt bob amser yn talu digon o sylw i gywirdeb. Ar brydiau, mae gwybodaeth ramadegol hyfforddeion yn wan. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gofyn bod eu hyfforddeion yn archwilio'u medrau ieithyddol ac yn gwella diffygion erbyn diwedd y cwrs.

142 Ar gyfartaledd, mae gan bob darparwr bartneriaeth gyda 30 o adrannau ieithoedd tramor modern mewn ysgolion lle mae hyfforddeion yn ymgymryd â'r rhan profiad mewn ysgol o'u cwrs. Mae darparwyr yn hyderus bod y rhan fwyaf o adrannau lle maent yn lleoli hyfforddeion yn darparu hyfforddiant da iddynt, tra bod ychydig o adrannau yn cynnig profiadau da iawn. Rhai o nodweddion yr adrannau gorau yw bod mentoriaid:

- yn disgwyl llawer iawn gan hyfforddeion, ac yn herio'u meddwl a'u harfer;

- yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da ac yn gallu cymell hyfforddeion;
- yn sicrhau bod hyfforddeion yn cael profiadau da;
- yn darparu modelau effeithiol o arfer dda, tra'n galluogi hyfforddeion i fod yn greadigol ac i ddatblygu'u harddull addysgu eu hunain;
- yn darparu adborth clir a thra-chywir gyda thargedau priodol sy'n cyfeirio at y safonau ar gyfer statws athro cymwys; ac
- yn meddu ar ymwybyddiaeth dda o ymchwil a pholisi addysgol.

143 Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw adrannau ieithoedd tramor modern yn darparu profiad hyfforddi da. Yn yr amgylchiadau hyn, mae sefydliadau yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer hyfforddeion, ac yn adolygu'r bartneriaeth gyda'r pennaeth a'r adran.

## Atodiad 1: Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw

Ysgol Aberconwy, Conwy
Ysgol Gyfun Bryn Hafren, Bro Morgannwg
Ysgol Uwchradd Caereinion, Powys
Ysgol Gyfun Cefn Saeson, Castell-nedd Port Talbot
Ysgol Uwchradd Crughywel, Powys
Ysgol Uwchradd Cwmcarn, Caerffili
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili
Ysgol Uwchradd Gatholig Rufeinig yr Esgob Hedley, Merthyr
Ysgol y Gader, Gwynedd
Ysgol Gyfun Glyn Ebwy, Blaenau Gwent
Ysgol Olchfa, Abertawe
Ysgol Gyfun Porthcawl, Pen-y-bont ar Ogwr
Ysgol Uwchradd Prestatyn, Sir Ddinbych
Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf

## Atodiad 2: Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg

Steffan James AEM
Penny Lewis AEM